# Y CARDI BACH

**Papur Bro Dyffryn Taf**

Cariad o beth Cardi Bach

Rhifyn 470 Ebrill 2026 Pris £1.50


# CYNGERDD COFFA JILL

Cynhaliwyd cyngerdd coffa Jill Lewis yn Theatr y Gromlech, Ysgol Bro Preseli, Crymych ar nos Sadwrn, Mawrth 28ain. Gwnaeth Twm bach roi sylfaen gadarn i'r nosweth o'r dechre, gyda'i hiwmor heintus. A beth gellir ddweud am Eryrod Meirion? Dyma griw o fois wnaeth swyno pawb o'r nodyn cynta. Cafwyd perfformiad hollol wefreiddiol ganddynt dan arweiniad cadarn Branwen - yr uchafbwynt yn sicr wedd clywed y gân "Dol y Plu" sef hoff gân Jill. Dyma'r tro cynta iddynt ganu yn yr ardal, brysied y dydd pan fyddant yn dychwelyd i'n diddanu eto. Cafwyd anerchiad wych gan Mari Grug wedi hynny. Mae Mari yn lysgennad arbennig i Ymchwil Canser Cymru a gwnaeth ei hanerchiad arwen at arwerthiant llwyddiannus iawn dan forthwyl yr arwerthwr medrus Geraint James. Codwyd y swm rhyfeddol o £17,065 o'r arwerthiant - diolch o galon i bawb wnaeth gyfrannu a phrynu'r eitemau amrywiol a diolch hefyd i Geraint am ei gyfraniad amhrisiadwy. Wedi egwyl fer, croesawyd Bwncath i'r llwyfan a gwnaethant hwy hefyd ein swyno o'r nodyn cynta, gyda'u sain unigryw a'u caneuon hudolus. Cafwyd perfformiad hollol wych ganddynt yn ôl eu harfer a diolch i Dafydd am ddod i'r adwy fel drymiwr iddynt, yn absenoldeb Twm Ellis. Diolch i brif noddwyr y noson sef Midway Motors a Forest Arms ac i'r holl noddwyr eraill am eu cefnogeth a diolch i bawb wnaeth gyfrannu'r holl wobrau raffl, prynu'r raffl a chefnogi'r noson. Mae modd gweld rhestr o'r holl eitemau arwerthiant a gwobrau raffl; ar dudalen facebook Ocsiwn Cyngerdd Coffa Jill. Gellid fod wedi llenwi'r neuadd ddwy waith drosodd, cymaint oedd y galw am docynnau. Bu'n achlysur chwerw felys i ni, yn deulu a ffrindiau, ond rydym yn sicr bod Jill wedi bod yn edrych lawr arnom gan wenu gered. Diolch o galon i bawb wnaeth ein cynorthwyo mewn unrhyw fodd gyda'r trefniadau; gwerthfawrogir eich cefnogaeth yn fawr iawn. Rydym yn teimlo'n freintiedig iawn ein bod yn byw mewn chymuned mor glos, cefnogol a chyfeillgar.

***Drwy'n hiraeth, Jill, enciliwn - yn dy wên***
***dyner a diolchwn***
***Drwy glwy'r haf, drwy'r galar hwn***
***Am alaw un mewn miliwn.***



**Teulu Lluest gyda bois Bwncath a Sion Williams, y technegydd sain.**



**Eryrod Meirion yn diddanu'r gynulleidfa, dan arweiniad Branwen Williams.**

**PWYSIG**
Er mwyn hwyluso'r gwaith cysodi a golygu gofynnir yn garedig i chi ddanfon newyddion a chyfarchion at eich gohebydd lleol erbyn y 6ed o'r mis.
Gofynnir i'r gohebwyr ddanfon lluniau ar e-bost yn hytrach na WORD er mwyn cael lluniau o ansawdd da.

**Y CARDI BACH**

| | |
|---|---|
| **Golygydd, Cadeirydd a Dosbarthwr** | Eurfyl Lewis 01994 419495 |
| **Is-gadeirydd:** | Marian Thomas 01994 230121 |
| **Ysgrifennydd**: | Beti Wyn James 01994 230966 |
| **Trysorydd** | Rosemarie Davies 01994 419005 |
| **Trysorydd y Clwb '200':** | Rhian White 01994 231338 |
| **Cysodwyr:** | Jason a Gwen Lye-Phillips 07930 520564<br>46 Resevoir Road Tanerdy Caerfyrddin SA31 2ER |
| **Clonc a phosau** | John Arfon Jones 01994 240536 |
| **Cornel y Dysgwyr::** | Albie Abbott 01239 831641 |
| **Tudalen y Plant:** | Llinos Mair Thomas |
| **Llewyrch i'm Llwybr:** | Eurfyl Lewis |
| **Cornel Coginio:** | Winnie James-Phillips 01239 831754 |
| **Cornel Llên:** | Marian Thomas 01994 230121 |

Newyddion, Lluniau, Erthyglau a Hysbysebion i'w hanfon erbyn **10fed** o bob mis, drwy e-bost i'r Cardi Bach.

e-bost: ycardibach@btinternet.com

Nid yw'r Bwrdd Golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a gyhoeddir yn Y Cardi Bach.

Argraffwyd gan:Gwasg Aeron Cyf. Aberaeron. 01545 571115

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru'.

# COLOFN Y MIS

*gan Iola Wyn, Caerdydd*

## Crwys

Mae hi bron yn ddwy flynedd ers i ni golli ein hast ddefaid Gymreig, Dyfi. Ac mae hi wedi cymryd tipyn o amser i ni ddod dros y golled, fel y gall unrhyw un sydd yn berchen ar gi ei ddeall dwi'n siŵr. Ond roedd teimlad bellach, a ninnau mewn cartref newydd bod yr ystafelloedd yn wag heb gwmni ci ffyddlon. Ac mae mynd am dro heb gi yn rhyfedd pan fo rhywun wedi arfer gwneud hynny.

Ac felly, daeth Crwys i'n byd yn fwndel bach bywiog drygionus, ag yntau'n 10 wythnos oed. Springador yw Crwys sy'n dri chwarter sbaniel a chwarter labrador. A gwell egluro sut i ni benderfynu ar yr enw.

Wrth gwrs, rhaid cydnabod yn gyntaf y prifardd a'r cyn Archdderwydd William Williams a oedd â'r enw barddol Crwys. Bu farw dair blynedd cyni fi gael fy ngeni. A'r unig Crwys rydw i yn ei adnabod yw tad y cyfwynydd Ifan Jones Evans.

Ond wrth chwilota am enw yn llyfrau Heini Gruffudd a Meic Stephens (Dwi'n llwyr ymwybodol mai enwau ar gyfer plant yw'r cyfrolau hynny gyda llaw) fe ddaliodd Crwys fy sylw am ei fod yn enw arall am groes. Addas iawn a ninnau yn ei groesawu i'n cartref cyn cyfnod y Pasg o bosib. Ond hefyd mae ganddo frest wen siap croes. A hefyd, mae'n enw cyfarwydd i'n cymdogion gan fod Heol y Crwys yn go agos i'n cartref. Ac ar y stryd honno, mae sawl sefydliad a busnes yn arddel yr enw - Capel y Crwys, Tafarn y Crwys, Crwys Electrics, Crwys Fish Bar a siop gornel Crwys i enwi rhai yn unig.



Ac wrth gwrs, fel y nododd yr adeiladwr, mae Crwys yn gi croesfrid hefyd, felly mae'r enw wedi ei ddewis am amrywiol resymau.

Fe soniais i'n gynharach fy mod i'n ymwybodol nad babi yw Crwys, ond rhaid cyfadde' mod i wedi anghofio fod cael ci bach yn debyg iawn i gael babi newydd-anedig! Gan obeithio y byddwn cyn hir yn cael cwsg drwy'r nos ac y bydd fy sanau ac esgidiau yn cael llonydd. Rydym yn byw mewn gobaith!

# LLEWYRCH I'M LLWYBR

*gan Gareth Ioan*

## Eco Eglwys

Ydych chi wedi torri'r lawnt eto? Fuoch chi'n helpu i dorri'r fynwent yn ddiweddar? Fuoch chi'n meddwl ble mae bois y cownsil na tasen nhw'n torri'r cloddie? Beth am borfa parc chwarae'r pentref - ydy hwnnw wedi'i dorri? Wel, mae wedi dod yn reit ffasiynol i beidio torri unrhyw borfa a llecynnau gwelltog tan ddiwedd Mai, on'd yw hi? 'Mai Di-dor' yw'r slogan a fathwyd am 'No-mow May'.

Bwriad y mudiad 'Mai Di-dor' yw rhoi cyfle i flodau gwylltion dyfu, ffynnu a hadu cyn cael eu lladd. Canlyniad hyn yw rhoi cyfle i ni fwynhau harddwch a phrydferthwch y blodau; a'u bod nhw yn eu tro yn dod yn

## GOHEBWYR LLEOL

| | |
|---|---|
| ALMA: | Margaret Evans<br>01994 230761 |
| BANCYFELIN: | Trefina Jones<br>01267 211210<br>tjtrefina@aol.com |
| CAPELI BANCYFELIN a CANA | Parch. Beti-Wyn James<br>beti.wyn@icloud.com |
| BLAENWAUN: | Tegwen James<br>01994 448223 |
| CAPEL MORIAH (Blaenwaun) | Meinir Eynon<br>01437 563540<br>meinireynon@gmail.com |
| CEFNYPANT: | Valerie Davies<br>01994 448475<br>vdavies55@outlook.com |
| CLUNDERWEN: | Delyth Roblin<br>07882 639867<br>delythroblin@outlook.com |
| CWMBACH: | Jane Evans<br>01994 448790<br>teulujames@btinternet.com |
| CWMFELIN MYNACH: | Nansi Evans<br>01994 448392 |
| EFAILWEN: | Angharad Booth Taylor<br>01994 419221<br>angharad.boothtaylor@btinternet.com |
| GELLIWEN: | Peter Crowdie<br>01994 230033<br>peter.crowdie@btinternet.com |
| HENDY-GWYN: | Heather Jenkins<br>01994 240138<br>jenkinsh2809@gmail.com |
| Tabernacl | Heather Jenkns<br>Meryl James<br>meryljames534@btinternet.com |
| HENLLAN - FALLTEG: | Sian Jackson<br>01994 240981<br>jacksonfawr@btinternet.com |
| LOGIN a CWM MILES | Meinir Eynon<br>01437 563540<br>meinireynon@gmail.com |
| LLANBOIDY: | Jayne Young<br>sales@shwldimwl.com |
| LLANDYSILIO: | Delyth Roblin<br>07882 639867<br>delythroblin@outlook.com |
| LLANGLYDWEN: | Eurfyl Lewis<br>01994 419495<br>eurfyllewis@btinternet.com |
| LLANGYNIN: | Susan Phillips<br>01994 231066<br>siwperiw@gmail.com |
| MEIDRIM: | Patsy Lewis<br>01994 230369<br>talarwen@hotmail.com |
| PENYBONT: | Linda Davies<br>01994 484657<br>lindadavies02061955@icloud.com |
| PWLLTRAP: | Beti Wyn James<br>01994 230966<br>betiwynjames@aol.com |
| RHYDYCEISIAID: | Doreen Adams<br>01994 240581 |
| RHYDWILYM: | Delyth Ifan<br>07875 289248<br>delythifan@gmail.com |
| SANCLÊR: | Beti Wyn James<br>01994 230966<br>betiwynjames@aol.com |
| TRELECH: | Alyson Harries<br>01994 484359<br>alysonharries@outlook.com |

ffynhonnell o fwyd i bryfed, gwenyn ac ieir bach yr haf. Mae'r tyfiant uchel hefyd yn medru darparu cysgod a lloches i famaliaid bychain a thrychfilod. Rhoi hwb i fyd natur yw'r syniad yn y bôn.

Does dim angen dilyn y ffasiwn yn gwbl slafaidd chwaith. Mae pwyllgor ein neuadd bentref ni yng Nghaerwedros yn ymwrthod rhag torri'r borfa ym Mai ers rhai blynyddoedd ond rydyn ni'n torri rhyw rimyn o amgylch cyrion y lawntiau, er mwyn taclusrwydd. Ac mae hynny'n edrych yn reit smart a dweud y gwir! Gallwch hefyd dorri llwybrau cerdded drwy'r borfa – rhai igam-ogam efallai. Mae hynny'n annog pobl i grwydro drwy'r porfeydd ac edmygu'r blodau a'u mwynhau.

Un o hanfodion Cristnogaeth yw ein stiwardiaeth o'r blaned. Mae'r 8fed Salm yn ein hatgoffa o hynny. "O Arglwydd, ein Iôr, mor ardderchog yw dy enw ar yr holl ddaear!" Mae'r salm yn rhyfeddu at y byd naturiol a chreadigaeth Duw, ac yn gosod y cyfrifoldeb am ei gwarchod a'i chadw yn ei holl ogoniant ar y ddynoliaeth. Pa mor driw ydyn ni wedi bod i'r cyfrifoldeb hwnnw dwedwch?

Os felly, gallech chi ddadlau y dylai ein capeli a'n heglwysi osod esiampl yn hyn o beth. Un mudiad sy'n ein cynorthwyo ni i wneud hynny yw La Rocha a'i raglen Eco Eglwys (Eco Church). Mae'r cynllun Eco Eglwys yn ein hannog i ystyried beth allwn ni ei wneud o ran gwarchod y greadigaeth yn lleol. Dyma rai awgrymiadau:

- Addoli a gwasanaethau: Ydyn ni'n cynnwys cadwraeth a materion amgylcheddol yn ein gwasanaethau? Beth am wersi a gweithgareddau'r Ysgol Sul?
- Adeiladau ac ynni: Pa mor ddarbodus ydyn ni o ran defnyddio ynni? Ydy'r adeiladau wedi eu hynysu'n briodol? Ydyn ni'n cynhyrchu ynni adnewyddadwy? A yw'r system wresogi yn briodol?
- Tir a byd natur: Mae gan y rhan fwyaf o gapeli ac eglwysi leiniau o dir neu fynwentydd i'w cadw a'u cynnal. Pam nad neilltuo ardaloedd ohonyn nhw'n warchodfeydd natur i hyrwyddo bioamrywiaeth? Beth am osod blychau adar a chreu cynefinoedd i famaliaid bychain neu westai pryfetach?
- Addysgu ac ymgyrchu: I ba raddau ydyn ni'n codi ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol ymysg ein haelodau a'r gymuned leol? Ydyn ni'n cefnogi mudiadau 'gwyrdd' priodol yn lleol, cenedlaethol a rhyngwladol?
- Ffordd o fyw: beth ydyn ni'n wneud i helpu'r achos yn ein bywydau beunyddiol ni'n hunain?

Taith yw dod yn Eco Eglwys. Fel dywed La Rocha ar eu gwefan,
"Gall eglwysi ddilyn sawl llwybr gwahanol wrth ddod at Eco Church: awydd i arbed arian trwy ostwng costau ynni, gofal am y bywyd gwyllt a welir yn y fynwent ac awydd i wella bioamrywiaeth, banc bwyd gweithredol a gwaith yn estyn allan i'r gymuned, pryder ynghylch argyfyngau'r hinsawdd a byd natur ac angerdd dros weithredu fel Cristnogion. Sut bynnag y 'cyrhaeddwch', lle da i gychwyn byddai'r man lle mae eich eglwys ar hyn o bryd, a thyfu a datblygu o'r fan honno."

Beth amdani? Ydych chi'n gêm i ddod ar y daith? Efallai mai peidio torri'r borfa yw'r cam cyntaf? Mai Di-dor amdani!

Gallwch gael mwy o wybodaeth am La Rocha ac Eco Church ar y wefan hon: *Getting-started-with-Eco-Church-CYMRAEG.pdf*

# COLOFN LLÊN

*gan Marian Thomas*

Anodd credu bod pedair blynedd wedi mynd heibio ers i Meinir Pierce Jones ennill gwobr Daniel Owen yn 2022 am ei nofel hanes lwyddiannus, **Capten.** Roeddwn felly'n disgwyl yn awchus am gyhoeddi ei nofel nesaf, sef **To** a ymddangosodd o'r wasg fis diwethaf. Dyna deitl go ryfedd ond cyfeiria at y prif gymeriad, sef Tonwen Neli Tomos, neu To i'w ffrindiau, a'i hymdrechion i roi 'to' ar ben hen furddun y cyfrwywr, Ben Lloyd a hwnnw wedi marw yn ddi-etifedd ers dechrau'r Ail Ryfel Byd. Mae Tonwen wedi gadael ei swydd fel derbynnydd yn y feddygfa leol a nawr yn Swyddog Menter Adfer Tyddyn Betw. Mae wedi'i lleoli yn Eifionydd ond gan mai o Dregaron y deuai'r hen sadlar yn wreiddiol fe aiff ar daith i Geredigion i ddarganfod ei gefndir. Mae cymhlethdodau ym mywyd Tonwen o ran perthynas, galar, alcohol a hyhi sy'n adrodd yr hanes yn ei hiaith Eifionydd gref. Mae'n rhaid cyfaddef na chefais yr un flas ar y nofel hon ar y dechrau ac mae angen ei hailddarllen oherwydd ceir ynddi sylwebaeth graff ar sawl agwedd ar fywyd heddiw - y pwyllgora, cwrdd â gofynion grant 'Gwireddu'r Freuddwyd' – a gwyddwn rywfaint am heriau hynny!  Mae'n angerddol am 'greu rhywbeth newydd wrth warchod.' Mae'n ymwneud â threftadaeth a'r cymeriadu'n effeithiol. Mae'r prosiect wedi bod  'yn gam anfesuradwy' yn ei bywyd ac 'wedi bod yn dwll chwaral o brofiad,' chwedl Tonwen. Ceir ffraethineb yn hiwmor crafog y stori ond dyfnder emosiynol hefyd fel y dywedir ar froliant y nofel. Hoffais y dyfyniad o Eseia ar ddechrau'r llyfr – 'Byddi'n ailadeiladu'r hen furddunod ac yn codi ar yr hen sylfeini; fe'th elwir yn gaewr bylchau, ac yn adferwr tai adfeiliedig.' Ceir tipyn i gnoi cil arno yn y nofel hon.

Bûm yn darllen rhywbeth hollol wahanol i Lyfrau Llafar fis diwethaf, sef nofel ddiweddaraf Marlyn Samuel, **Yr Ail Briodas**, sy'n ffars o'i dechrau hyd at y gair olaf. Mae Carys o Ynys Môn a John Gareth â'i acen ddeheuol yn priodi yn Lindos, Gwlad Groeg a'u teuluoedd yn mynd gyda hwy. Y doniolaf o'r cymeriadau yw Thelma, mam Carys sy'n gweld bai ar bawb a phopeth ond ces dipyn o sbort yn darllen ei deialog hi, yr un a adawodd ei phanty girdle ar ôl! O pam na allai'r awdures hon ysgrifennu comedi ar gyfer y teledu? Fedra i ddim cofio pryd ces i bwl o chwerthin wrth wylio unrhyw raglen ar S4C ers blynyddoedd lawer. Mae hon yn gymysgedd o Mamma Mia a'r hen ffilmiau Carry On slawer dydd! Digon ysgafn felly ond yn sicr yn peri i mi chwerthin. Efallai bod hynny'n dweud rhywbeth am fy synnwyr digrifwch i!

Yn dilyn clywed cyfweliad dirdynnol Dei Tomos ar ei raglen radio â phrifardd cadair Wrecsam, sef Tudur Hallam, roedd rhaid mynnu copi o'i gyfrol, **Y Golau yn y Gadair.** Pwy na chafodd ei gyffwrdd gan brofiad teimladwy'r seremoni cadeirio o dan arweiniad yr Archdderwydd y llynedd?  Mae'r Awdl ynddi ond hefyd y Bryddest  ddaeth yn ail am y goron a'r gweddill yn gerddi personol sy'n cyffwrdd â'r galon. Cafodd y bardd ddiagnosis o gancr a geiriau ei feddyg – 'Fight. You've got to fight' yn atsain ar draws y gyfrol. Os nad ydych yn dewis llyfrau barddoniaeth, darllenwch y gyfrol hon ac ewch ar BBC Sounds i wrando ar y cyfweliad.

Cyfeiriais at gyfrol ddiweddara Mererid Hopwood, **Mae** mewn rhifyn arall Hydref diwethaf ond pe baech awydd cyfrol arall o gerddi dyma dri awgrym arall. **Rhuo ei Distawrwydd** gan Meleri Davies a enillodd wobr categori barddoniaeth Llyfr y flwyddyn y llynedd, cyfrol am alar a gorfoledd bod yn fenyw, yn ferch ac yn fam. Mae **Caned Pobl y Byd**, Menna Elfyn yn gyfrol tair-ieithog - Cymraeg, Saesneg ac Arabeg; a **Trochi,** cyfrol gyntaf bardd cadair Eisteddfod 2024, Carwyn Eckley.

Fe ddywedodd yr awdur Lee Child mewn erthygl bod darllen wedi dod â llawenydd iddo yn nyddiau llwyd ei blentyndod. Bu'n ddihangfa i lawer ohonom onid do?  Yn sicr roedd hynny'n wir yn fy hanes i fel unig blentyn. Bu'n ymgyrchu'n ddiweddar i annog darllen mewn carchardai yng ngogledd Lloegr a hynny wedi lleihau'r tensiynau yno gyda'r gobaith o leihau'r nifer sy'n ail droseddu. Cyfeiriodd at ymchwil a ddarganfu y gall 20 munud o ddarllen leihau hormonau stress o 20%. Does ryfedd i mi fod yn fodlon fy myd yn ddiweddar! Mae darllen yn ddihangfa.

# CORNEL Y DYSGWYR

*gan Albie Abbot*

Wel mae'r gwanwyn wedi cyrraedd ac mae'n braf gweld popeth yn ei ogoniant ond mae hynny'n golygu y bydd tipyn o waith yn yr ardd fel tocio, chwynnu, plannu ac yn y blaen. Credaf dylai potel o chwynladdwr wneud y tro.
Ta beth dyma rywbeth i bori drostyn nhw.
Pob lwc
Albie

## Yr Iaith Lenyddol

Mae 'i fy' ac 'i dy' yn dderbyniol ond y ffordd lenyddol yw 'i'm' ac 'i'th'. Defnyddir 'm' a 'th' yn yr iaith lenyddol ar ôl 'a', 'i', 'o', 'gyda', e.e.

dy fam a dy dad > dy fam a'th dad
gyda fy nghariad > gyda'm cariad

Cyfieithwch yr isod, gan ddefnyddio'r iaith lenyddol. Defnyddiwch ffurfiau 'ti' bob tro.

**Your house and your garden.**

..................................................

**He came to my house.**

...............................................

**He is printing from my computer.**

....................................................

**They are on their way to your office.**

...........................................................

**There will be changes as a result of your review.**

.......................................................................

**Thank you for your support and your help.**

.....................................................................

## Gramadeg

'For'
i, ar, dros, er mwyn, ar gyfer, am

Cyfieithwch (Translate)

**1. I am going for a holiday.**

.............................................

**2. I'm going to buy it for a pound.**

......................................................

**3. They are going for a walk.**

..............................................

**4. You can have it for tea.**

..........................................

**5. We went for a meal.**

......................................

**6. I bought it for a friend.**

...........................................

**7. Will you go to the shops for me?**

...........................................................

**8. I have bought a new suit for Christmas.**

....................................................................

**9. Ask for a present for a friend.**

.....................................................

**10. I'm doing it for the children.**

...............................................................



# Clwb 200

d/o Rhian White, Garnwen, Llangynin, San Clêr,
Sir Gâr. SA33 4JZ
Rhif ffôn: 01994 231338
e-bost: rhian-white1@hotmail.co.uk

Annwyl ddarllenwyr,

Gobeithio eich bod i gyd yn cadw'n iach ac yn ddiogel. Diolch i'r nifer ohonoch sydd eisoes wedi ymaelodi â'r clwb ac am eich cefnogaeth. Eleni eto, mae gennym nifer sylweddol o aelodau newydd, yn ogystal â ffrindiau sydd wedi bod yn gefnogol i'r clwb ers sawl blwyddyn. Serch hyn, mae ambell i aelod ffyddlon heb ymaelodi eleni eto a byddai'n braf dros ben clywed gennych.

Mae ymaelodi'n rhwydd - gallwch ddanfon siec am £10 ataf, yn daladwy i 'Clwb 200 Y Cardi Bach', gyda'ch enw a chyfeiriad. Yn ogystal, gallwch dalu drwy'r system BACS. Côd didoli'r banc yw 40-46-27 a rhif y cyfrif yw 91020765. Lle mae'n gofyn am gyfeirnod/reference, rhowch eich enw chi fan hyn. Mae croeso i chi hefyd gysylltu â fi i ddweud eich bod wedi gwneud y taliad. Cofiwch fod yna wobrau misol o £20 a £30 a chyfle hefyd i ennill gwobrau ariannol arbennig yn y Raffl Fawr ym mis Rhagfyr.

Mae rhestr o'r holl aelodau sydd eisoes wedi ymaelodi, yn y rhifyn hwn. Os ydych wedi talu, ond yn sylwi nad ydy'ch enw i'w weld, cysylltwch â fi ar unwaith. Rhowch wybod hefyd os oes yna unrhyw newid i'ch manylion personol, e.e. enw, cyfeiriad ayyb, os gwelwch yn dda.

Yn drist iawn, mae'r Cardi Bach wedi colli sawl ffrind ffyddlon yn ystod y misoedd diwethaf. Cofiwn yn dyner amdanynt a diolchwn iddynt hefyd am eu cyfraniadau a'u teyrngarwch i'r Clwb 200 dros flynyddoedd lawer.

Diolch yn fawr a chadwch yn ddiogel,
Rhian.

Llongyfarchiadau i'r canlynol ar ennill yn ystod y misoedd diwethaf:-

Ionawr
£30 - 353 - Anne Llewellyn, Llandysilio
£20 - 26 - Sonia, Siop Trin Gwallt, Llandysilio

**Chwefror**
£30 - 720 - Viv ac Anne Morris, Hen Dŷ Gwyn
£20 - 700 - Elgar a Rose Saer, Hen Dŷ Gwyn

**Mawrth**
£30 - 324 - Ken Kendall, Llanboidy
£20 - 231 - Anne James, Pwll-Trap

Dyma'r enwau sydd eisoes wedi ymaelodi:-

**Abergwaun**
150 Shan Griffiths, 25 Tlysfan, Penwallis

**Abergwili**
191 Ian a Catherine Ayers, Carrog
310 Y Parch. Beti Wyn James, Llys Gwyn, Clos y Parc

**Aberhonddu**
151 Kathryn Heneghan, Llwynmerched, Aberystir


**Aberteifi**
7 Awen Teifi, 23 Stryd Fawr
18 G T Tyres, Garej Brooklyn
35 Olew Trefigin
689 Rhidian Evans, Dolawenydd, Heol Caemorgan
697 John a Morina Adams-Lewis, Grove House, Feidrhenffordd

**Aberystwyth**
154 Eleri Roberts, Nant yr Eira, Commins Coch,

**Arberth**
157 Ann Lewis, Creston, 6 Heol yr Orsaf
159 Ann Taylor, 57 St. James Street
178 Rhian Pugh, East House, Crinow
623 John a Pauline Thomas, Tawelfan, 3 Gerddi Bloomfield
824 Ianto Banner Davies, Hi Winds, Cold Blow
825 Robert Burns, Greenwood Cottage, Cold Blow
826 Liz Burns, Greenwood Cottage, Cold Blow

**Awstralia**
570 Cerys a Tomi Cleaver, Adelaide

**Bancyfelin**
89 Anthea a Dean Thomas, Siop a Swyddfa Bost
164 Gwion a Sion Jones, Llwynonn
166 Emrys Morgan, Sarnbwla Forge, Heol Meidrim









260 Eluned Griffiths, Nythfa, High Street
355 Nesta Howells, 20 High Street
509 Carwen Howells, Maescowin
637 Annalyn Davies, Melinycoed
817 Peter Howells, 20 High Street
828 Stephen Jenkins, Nythfa, High Street

**Blaenffos**

60 Rhydwyn Davies, Trydanwr, Parcylleine
169 Eifion Daniels, Hafan

**Blaenwaun**

170 Gareth a Pat Davies, Pilmawr
175 Tegwen James, Penybryn
177 Richard Pugh, Ffynnonlas Uchaf
773 Alun Griffiths, Heol-y-Wawr

**Boncath**

568 Siân Davies, Kings
753 Ester a Madog Higginson, 5 Cwrt Dolwerdd

**Bryste**

520 Oliver a Phoebe Lewis, 4 Cavendish Close, Saltford
585 Meril Morgan, 14 Heol Amberley, Downend

**Caerdydd**

121 Mali a Nel Kay, 29 Llwyn y Grant Road, Penylan
181 Mary Buttle, 16 Little Mill, Eglwys Newydd
182 Byron a Morwen Edwards, 74 Parc y Fro, Creigiau
183 Euros, Sian ac Elen Evans, 9 Lakeside, Knap, Y Barri
184 Edryd a Helen Evans, Flat 4 Rectory Court, Penarth
185 Dr. W D a A Evans, 52 Heol Tŷ Draw, Penylan
186 Gareth Howells, 85 Bayscape, Ffordd Watkiss
187 June Huws, 3 Garth Villa, Gwaelod y Garth
479 Glyn Evans, 69 Riverglade, Gwaelod y Garth
633 Nansi Williams, 2 Burlington Terrace
673 Iola Wyn, 7 Timbers Square, Y Rhath
752 Tomos ac Etta Phillips, 18 St. George's Rd, Y Mynydd Bychan
795 Tania Evans, 69 Riverglade, Gwaelod y Garth
807 Nel Williams, 2 Burlington Terrace

**Caerfyrddin**

10 Rhodri Lewis, Cwmni Arwain
40 Siop y Pentan
167 Dewi a Sioned Snelson, 4 Trem y Coleg
168 Caleb, Gwilym ac Osian Snelson, 4 Trem y Coleg
198 Rosemond Halls, 2 Plas y Milwr, Heol y Priordy
203 Mr. a Mrs. V H Thomas, 138 Heol Llansteffan
238 John a Heather Phillips, Gogerddan, Heol Abergwili
286 Ralph Beardmore, 28 Brynteg, Pentremeurig
360 Rose Beardmore, 28 Brynteg, Pentremeurig
382 Dai Baker, 14 Maes Frondeg
445 Glenys Jenkins, 68 Maes Pedr
608 Hana a Tomos Rees, 30 Maes Pedr
683 Kevin Bowen, 18 Bryn Gorwel
774 Ernest Jones, Yr Hafan, 59 Heol Bronwydd
775 Janet Jones, Yr Hafan, 59 Heol Bronwydd
793 Dianne Thomas, 23 Caernarfon Drive, Rhiwderin, Casnewydd

**Castell Newydd Emlyn**

206 Iori Rees, Hendre, Adpar
712 Twm Elias Davies, 4 Sŵn yr Afon

**Cas-Wis**

456 Celyn Lewis, Fferm Dollaston
491 Siân Lewis, Fferm Dollaston

**Cefn y Pant**

147 Elfed Owen, Lan
207 Dai a Mary Evans, Cnwcyrhiw

**Cilgeti**

158 Alan ac Iris Newman, Kenmar, Jeffreyston
630 Thomas Adams, 48 Park Avenue
631 Megan Adams, 48 Park Avenue
684 Elin Phillips, Y Mans, Cresswell Quay
771 Claire Adams a Charlotte Shearsby, 48 Park Avenue

**Clunderwen**

58 Kathy's Siop Trin Gwallt
76 Peirianneg Marc James Cyf., Llwyncelyn
77 Maelfa, Siop y Pentref
78 T D Ladd, Siop Nwyddau Haearn





HUW OWEN
CLUDIANT



Rhydymoch
Llandysilio
Clunderwen
Sir Gaerfyrddin
SA66 7UR

☎: 01437 563725 • 07798 885305

CWMNI PEIRIANNEG HENDYGWYN AR DAF CYF.
(WHITLAND ENGINEERING LTD.)
GWAITH HAEARN O BOB MATH
SEFYDLU · ADEILADU · WELDIO
ARBENIGWYR YNG NGWAITH HUFENFEYDD A BRAGDAI
GWAITH CYNNAL A CHADW

Uned B
Heol y Gorllewin
Hendygwyn ar Daf

Ffôn: 01994 240442
Ffacs: 01994 240937



79 R M Jones, Cyfrifydd, Bridge End House
80 Gerald Llewellyn, Plymwr, Dryslwyn
81 Edward John, Fferyllfa Clunderwen
82 W J Kenneth Davies, Trefnwyr Angladdau, Blaenwern
83 Ifan Davies, Saer Coed, Blaenwern
209 Heulwen Davies, 23 Heol y Gaer
215 Eira Phillips, Maes y Crugiau
216 Simon a Faith Wright, Broderwen
361 Hilary Watkins, Tŷ'r Iet, Jones Terrace
599 Gloria Gibby, Rhoshelyg, Bro Waldo
779 Eifion Griffiths Felin Fach, Penffordd

**Crymych**

2 Carwyn Rees, Boomerang Arwyddion a Dylunio
5 Nia Phillips, Tŷ Bach Twt
6 Wyn Mathias, Garej Wyn
13 Nia Llewellyn, Delwedd
15 Bwyd y Byd
17 CBS, Iwan James
28 Sioned Phillips, Cegin 24
62 Cennydd James, Adeiladwr
85 Siop Sian
86 Ken Davies, Cigydd, London House
105 Ifan Phillips, Canolfan Rehab - Crymych a San Clêr
109 Crymych Arms
110 Celia Vlismas, Optegydd
214 Delyth Owens, Cartref Uchaf
220 Winnie James-Phillips, Gŵel y Frenni, 4 Wellfield Grove
336 Sally Thomas, Cilhaul
527 Audrey Davies, Brynstop
661 Ronnie a Brenda Lewis, Pen Talar, 27 Llain Drigarn
832 Windsor a Glynwen Thomas, Min-y-Mynydd

**Cwm Miles**

91 JTL Plymwr
390 Tony a Meinir Eynon, Penbompren
397 Beti James, Coedllys
227 Eleri Hughes-Gage, Tŷ Croes, Cwmbach

**Cwmfelin Mynach**

27 Brian John, Rose Garage
233 Wyn a Meirwen Evans, Y Felin
234 Nansi Evans, Penybont
237 Merched y Wawr, Cangen Gronw
239 Iori a Ceri Saer, Blaenffynnon
240 Meleri a Buddug, Blaenffynnon
694 Rhys a Glyn Biggs, D/O Blaenffynnon
695 Lloyd a Mari Hart, D/O Blaenffynnon

**Cydweli**

326 Ffion, Cari ac Alaw, Closteg, Llangyndeyrn
542 Dafydd ac Elin Evans, Closteg, Llangyndeyrn

**Dinbych y Pysgod**

242 Bronwen Hicks, Tŷ'r Ysgol, Redberth
550 Peter a Menna Lewis, 10 Lamack Vale
241 Peter Walton, Gerddi Gleision, Brithdir,

**Dolgellau**

**Efailwen**

1 Huw Owens, Saer Coed, Danycoed
39 Russell Thomas, JCB, Copper Beech
51 Dennis Jones a'i deulu, Maesawelon
87 Glandy Cross Stores, Glandy Cross
96 Caffi Beca - Robert James
103 Gwion Jenkins, Gwasanaeth Hurio Cloddiwr
104 Guto Jenkins, GSJ
108 Bar Beca - Guto Jenkins, Rhosfach
244 Eilir Davies, Tŷ Rhos
248 Iwan a Meinir Jenkins, Fferm Rhosfach
249 Gwyneth Jones, Pencraig Uchaf
250 Gwyndaf Lewis, Bro Beca
251 Nia Lewis, Bro Beca
252 James Morris, Talarwen
254 Hefin Parri-Roberts, Bryn Glandy
255 Keith Thomas, Rhos Inn
256 Janet Wheeler, Clyngwyn
281 Ceirios Jenner, Gwêl y Meini
319 Anthony Jenner, Gwêl y Meini
350 Dorothy Williams, 5 Rhoswyn
490 Tudur Lewis, Bro Beca
544 Tudur Lewis, Bro Beca
551 Angharad Wyn Booth-Taylor, Golwg y Grug, Glandy Cross
688 Angharad Wyn Booth-Taylor, Golwg y Grug, Glandy Cross
766 Betty Davies, 2 Rhoswyn
834 Rhian Williams, Penllain Wen








**Eglwyswrw**

74 Ifan Lewis, Saer Coed

**Gellywen**

258 Phil a Jiwli Higginson, Llys y Gwynt

305 Derrick Harries, Felindre Farm

**Gerrards Cross**

638 Gwyndaf a Janet John,40 Beech Waye,

**Glandwr**

3 D E Phillips, Trydanwyr

243 Keith a Mair Davies, Brynderi

519 Esme Williams, Rhydcoedbach

**Glandy Cross**

4 Aeres Williams, Hyfforddwraig Yrru

246 Andrew a Rhian James, Arosfa, Bro Deirian

473 Raymond a Barbara Owen, Talybont, **Gwynedd**

**Hebron**

8 Rosemarie Davies, Cyfrifydd Technegol, Fferm Blaenwaun

9 Wyn Davies, Cwmni Adeiladwaith, Fferm Blaenwaun

**Hendygwyn**

20 Meryl James, Blodau Meryl, Pengawse

21 Huw Jones, Adeiladwr, Dorset House

24 Colin J. Harries, Cigydd, London House

29 Gerald Blain, Cymdeithion Cyf, Stryd Sant Ioan

31 Clwb Rygbi Hen Dŷ Gwyn

32 Gareth Glanville, Saer Coed, Llwynpinner Fach

36 Wynne Phillips, Canolfan Dryciau

48 Station House Hotel - M S Adams

49 Cwmni Peirianneg Hen Dŷ Gwyn (Whitland Engineering)

50 Bysiau Cwm Taf, Penrheol

52 Davies Builders Hen Dŷ Gwyn a SanClêr

54 Riverlea, Hen Dŷ Gwyn - Richard Merriman

56 Gwasanaeth Trydanol RMD

57 Jeff Court, Station Garage

61 Huw Thomas a'i Fab, Peiriannydd Amaethyddol

70 Garej Central - David Lewis

93 Colin John - Llewelyn Davies, Cyfrifwyr Siartedig

94 Mike Faulkner, Saer ac Adeiladwr, Heol y Gogledd

97 Siop Premier, Stred Sant Ioan

99 Allsortz

100 David Harries & Co., West Street

102 Gwasanaeth Ceir Hen Dŷ Gwyn

106 Neil Jenkins a'i Fab, Gwasanaeth Adeiladu, Trefychan

112 Meddygfa Taf

115 Cymdeithas Genedlaethol Hywel Dda

262 Cian Rees, Parc yr Arfau, Heol y Gorllewin

263 Doreen Adams, Llain-Alaw, Gerddi'r Ffynnon

264 Gerald ac Eileen Blain, Tegfryn Taf

269 Eilona Evans, Briona, Heol y Gogledd

270 Trefor Evans, Glyn Mynach, Heol y Gorllewin

271 T a VEJ Evans, Henglos

272 Owen a Beryl Gibbin, Aweldeg, Heol y Gogledd

274 George ac Ann Glanville, Bryn Haul, Llwynpinner Fach

276 Roy Adams, Sunnydale, Heol y Gogledd

277 Dr. Malcolm a Mrs. Pearl Holding, Eltham House

278 Carys James, 31 Trevaughan Lodge

280 Ron Jenkins, Cartref Preswyl Waungron

282 Owain Jones, Cware, Llwynbrain

283 Carys Jones, Cware, Llwynbrain

291 Elonwy Phillips, Brynhawddgar, Gerddi'r Ffynnon

292 Gareth Phillips, Brynhawddgar, Gerddi'r Ffynnon

294 Eunice John, Dolawel, Gerddi'r Ffynnon

295 Ken a Cerrys Rees, Glyn Helyg, Heol y Gogledd

296 Rhian Rees, Glyn Helyg, Heol y Gogledd

300 Paul, Nerys a Cari Rogers, 16 Trevaughan Lodge

302 Eryl Rosser, West Regwm

303 David Rowlands, 30 Lôn Hywel

304 Haulwen Thomas, 2 Lôn Hywel

306 Elizabeth White, 8 Gerddi Trefychan

362 Eileen John, Cartref Gofal Waungron

370 George Bancroft, Porth Ceri

Preseli Services Cyf
Llanddewi Efelffre, Arberth. SA67 7PD
Oil4Wales
Olew dros Gymru
CERDYN TANWYDD
preselistorage

R. M. JONES
CYFRIFYDD AC AMCAN-GYFRIFYDD
Bridge End House
Clunderwen
Ffôn: 01437 562185 / 07831 426456
e-bost: meurigj@hotmail.com

GWASANAETH CEIR HENDYGWYN
Canolfan atgyweirio ceir
Gwerthu Teiars, Batris, Egsosts ayyb
Dai James - Steven Owens
Uned 9, Ystad Ddiwydiannol Gerddi'r Ffynnon, Hendygwyn ar Daf
01994 240230 / 07972

372 Mary Bowen, Aelwyd, Heol y Gogledd
468 Claude James, 43 Bryngwenllian
506 Jackie Rodgers, The Stables, Trefychan
513 Marc James, Fferm Llwynpinner
547 Mel Jenkins, 8 Gerddi Trefychan
593 Rose Rickards, 5 Stryd y Brenin Edward
601 Hywel a Myfanwy Thomas, 1 Brynderwen
609 Meinir Thomas, 5 Heol y Gogledd
614 John Arfon Jones, Cilhaul, Heol y Gogledd
639 Iona Griffiths, Wern Ddu, 1 Stryd y Brenin Edward
648 Aeres Jones, Bronllys, Gerddi'r Ffynnon
650 Ithel Parri-Roberts, Preseli, 20 Heol y Brenin Edward
662 Doreen Brown, Maeshyfryd, Gerddi'r Ffynnon
681 Dafydd Lewis, 13 Heol y Brenin Edward
699 Jean Parri-Roberts, Preseli, 20 Heol y Brenin Edward
700 Elgar a Rose Saer, 10 Heol y Parc
720 Viv ac Ann Morris, Maes yr Haf, Heol y Gogledd
816 Sue Davies, 41 Maes Abaty

**Henllan Amgoed**

33 D B Davies, Saer Coed, Llwyn Du
42 Phil a Siôn Harries, Seiri Coed, Efail Fach
311 Carwyn Davies, Blaenffynnon
312 Bleddyn Davies, Blaenffynnon
313 John Evans, Cilhengroes
339 Gethin ac Eleri Gibbin, Fferm Drefach
410 Lilian Rees, Rest
611 John Davies, Blaenffynnon
612 Valerie Davies, Blaenffynnon

**Hermon**

317 Lona Tomos, Pantyrysgol
318 Cris Tomos, Pantyrysgol
818 Iolo Phillips, Bwlchglas
819 Dion Phillips, Bwlchglas
820 Ina Phillips, Bwlchglas
821 Nel Phillips, Bwlchglas

**Hwlffordd**

134 Perlys John, 9 Tan Banc, Prendergast
143 Perlys John, 9 Tan Banc, Prendergast
315 Brian a Celia Crowdie, Garreg Lwyd
316 Gwynedd T. James MBE, 6 Dingle Lane, Crundale
501 Michael Thomas, 54 Clover Park
594 Enid a Malgwyn Edwards, 22 New Road

**Ledbury**

137 Beryl a Gareth Williams, Bramleigh, New Street
592 Harri a Lucy Williams, 24 Viking Way

**Llanbedr Efelffre**

55 Mason Brothers, The Norton Yard,

**Llanddewi Efelffre**

111 Preseli Service Station

**Llanbedr Pont Steffan**

192 Noeleen Davies, Wernfraith, Parc y Rhos, Cwmann
195 Dorothy James, Onllwyn, New Street
459 Tegwyn Williams, Maes Helyg, Cwmann

**Llanboidy**

11 Wyn Howells, Peintiwr, Dandre
12 Clwb Cymdeithasol Llanboidy
19 Shwl-di-Mwl
34 Masnachwyr Adeiladu DP
98 Spar - Siop a Swyddfa Bost
101 Owain Williams ORW T/A Dorian Phillips
122 Gwynlais a Mary Phillips, Merlais
124 Clwb Pêl-droed Llanboidy
132 William Davies, Stag
320 Susan Davies, Maes y Werin
321 Valerie Dixon, Penllwyngwair
324 Ken Kendall, Crudyrawel
325 Clwb Chwaraeon Llanboidy
327 Ronnie a Mair Morgan, 3 Sgwâr Piccadilly
328 Margaret Phillips, Waunfawr
329 Hubert Phillips, Waunfawr
357 Buddug Phillips, Merlais
467 Angela Murray, 2 Sgwâr Piccadilly
545 Kay Williams, Talar Deg
552 Nigel a Julie Thomas, Maesybryn
721 John a Wenfys Rees, Lan-Teg
815 Haulwen Davies, Stag
831 Rodney ac Eiry Williams, Yr Hen FfatriPop
557 Elfed John, Tiron, Cwmdegwel, **Llandudoch**

COLIN JOHN
Llewelyn Davies
Cyfrifwyr Siartedig
Hendygwyn
01994 240254
www.llewelyndavies.co.uk

GAREJ WYN CYF
Uned 1 Parc Gwynfryn
Crymych, Sir Benfro
SA41 3RG
MOT
Gwasanaeth •Atgyweirio
Teiars • Batris
Ffôn: 01239 831300
Ffacs: 01239 831853

CBS
CRYMYCH
ADNODDAU ADEILADU
Uned 11B, Parc Gwynfryn,
Crymych. SA41 3RQ
Ffôn: 01239 831444
e-bost: sales@crymychbuildingsupplies.co.uk

**Llandysilio**

14 Lamos, Beiciau Modur
22 J B Owen, Llogi Peiriannau, Golygfa
23 Young Brothers Cyf., The Ashes
26 Sonia, Siop Trin Gwallt
53 Phillips a Morris, Adeiladwyr
64 Dafydd Makepeace, Pren Da, Fferm y Cross
66 G a S Llewellyn a'u Mab, Pen-y-Cwm
67 Ffenestri MWJ, Tŷ Gwyn
68 Angel Inn - George ac Ann Youngman
69 Adrian Llewellyn Groundworks Cyf.
72 Karen MacKechnie - The Floral Goat
90 Huw Owen Cludiant, Rhydymoch
123 Paul a Carolyn Jenkins, Brosilio
189 Alan Bowen, Parc Carafannau
208 Gillian Beynon, Bwlch y Ddwy Sir
337 Brenda Bowen, Blaendolfrwynog
341 Betty ac Einir Evans, Brynhyfryd
342 Gillian Gibby, Cysgod y Dderwen
343 Jean Griffiths, Springhill
345 Dylan a Maureen John, Hendre Fawr
346 Eilyr Thomas, Y Fedwen Aur
349 Anna Williams, Fern Villa
351 Elaine Llewellyn, Tŷ Uchaf
352 Melanie Llewellyn, Tŷ Uchaf
353 Anne Llewellyn, Tŷ Uchaf
354 Russell Llewellyn, Tŷ Uchaf
505 Teulu Llewellyn, Tŷ Uchaf
531 Vernon Beynon, Bwlch y Ddwy Sir
576 Mon Davies, Man Tawel
580 Meurig Davies, Man Tawel
669 Annette Llewellyn, 4 Laburnum Cottage
685 Hywel Davies, Brynclyd
782 Tina Llewellyn, 1 Laburnum Cottage
783 Dona Llewellyn, 1 Laburnum Cottage
829 Joy Llewellyn, 1 Laburnum Cottage
830 Wayne Llewellyn, 1 Laburnum Cottage
836 Sadie Davies, Brynclyd

**Llandysul**

120 Elan Mair, 11 Cae Rwgan, Aberbanc
125 Tomos Dafydd, 11 Cae Rwgan, Aberbanc
391 Aled Eynon, 11 Cae Rwgan, Aberbanc
503 John Evans, Alltwen
539 Nan a John Thomas, 11 Bro Dewi, Henllan
579 Aled Eynon, 11 Cae Rwgan, Aberbanc
659 Iori Evans, Nythfa, Cross Inn
710 Graham a Mabel Adams, Garth, Panteg Cross

**Llanelli**

202 William Rees, 9 Heol Innes, Felinfoel
211 Mari Rees, 9 Heol Innes, Felinfoel

**Llanfallteg**

273 Joyce Phillips, Llanbarietts
466 Bruce a Sian Jackson, Parc yr Odin
746 Eufryn a Marion Davies, Penybont
790 Betty Howells, Cefnmaenllwyd

**Llanfyrnach**

287 Beryl Vaughan, Tŷ Newydd, Clydau
801 Denzil Davies, Moelwern
835 Ann Davies, Moelwern

**Llangain**

163 Wendy Evans, Sŵn yr Einion
838 Janet Davies, Mount Pleasant

**Llanglydwen**

75 Steve Daniell, Monraker, Plymwr
107 Eddie a Carlo Dunn, Reptile Tiles
161 Margaret Owens, Glas y Dorlan
463 Sue Phillips, Taf
465 Haydn Evans, Taf
512 Eurfyl Lewis, Lluest
522 Heulwen Evans, Sŵn yr Afon
504 Marion Jones, Maesderi, Llangurug

**Llangynin**

37 Carl Britton, C J Waste, Britton Villa
73 Aled Jones, Contractiwr Amaethyddol
92 Tomos Rees, Garej New House
174 Rhiannon Thomas, 4 Llys Coed
210 Cai Alexander Booth, D/O Rhian White, Garnwen
323 Noa Llewelyn Davies, D/O Gorwelion
367 Les Evans, Blaenycoed
369 Arwyn a Caroline Jones, Maesycoed
373 Mike a Llinos Morris, Blaenffynnonau
375 Menna Parry, Erwlon
376 Don a Susan Phillips, Gorwelion
378 Roy Reynolds, Tymore
379 Y Parch. a Mrs. Rhodri Glyn Thomas, Llanddwyn
380 Lisa, Deian a Rolant, Llanddwyn
381 Llinos a Geraint, Carreg Lwyd
383 Mark a Rhian White, Garnwen
419 Alun a Sandra Davies, Erw-Ddôl

Tomos Rees
NEW HOUSE GARAGE
Atgyweirio a M.O.T.
Ffôn: 01994 230041

HAYDN LLOYD BSc / DMS - Cyfarwyddwr
ALLPUMP SERVICES
ARBENIGWYR MEWN PWMPS FFYNNON A TYLLAU, TRINIAETH CARFOSIAETH, SYSTEMAU DŴR BRWNT A SOLAR
Fferm Ffynnonlwyd
Llangynin
San Clêr
SA33 4LD
Ffôn: 01994 448310
Ffacs: 01994 448693
e.bost: enquiries@allpump.co.uk

DAIL PREN
Crefftwaith pren, arwyddion a gwaith ysgythru laser
Tomos Lewis
dailpren.co.uk | dailpren@hotmail.com

442 Neil Edwards, Pleasant View
489 Taliesin Scott Robinson, D/O Rhian White, Garnwen
498 Rhydian a Laura Davies, Awel-y-Bryn
515 Eifiona Lewis, 3 Llyscoed
517 Elfed Lewis, 3 Llyscoed
628 Elspeth Scott Robinson, D/O Rhian White, Garnwen
678 Kevin Roberts, Penybryn
708 Sarah Roberts, Penybryn
716 Mary Edwards, Pleasant View
837 Caleb William Wyn Davies, Awel-y-Bryn

**Llangynnwr**

171 Greta, Miriam a Noa Wyn, 6 Golwg Tywi
193 Elfed a Nia Lewis, Afallon, 29 Awel Tywi
578 Angharad Jones, 58 Penymorfa
732 Yvonne Griffiths-Rogers, 2 Penymorfa

**Llangynog**

253 Beryl Thomas, 1 Isfryn
487 Mair Griffiths, Penplas
675 Anne Davies, Ffynnon Seiri
798 Hallie a Livvie Hopkins, Y Byngalow, Heol y Nant, **Llannon**
621 Huw a Meryl James, Tyddyn, **Llanwinio**
523 Jac a Josh Lewis, 4 Maesolbri, **Llanybri**
682 Beryl John, Dolbetws, **Llanycefn**
541 Dr. Rhian Phillips, 20 Finchley Court, Ballards Lane, **Llundain**

**Login**

41 Wyn Davies a'i Frodyr, Adeiladwyr, Golygfa'r Cwm
88 Jones Login
152 Margaret Griffiths, Waunfach
398 Huw a Sue Jones, Cilowen Uchaf
444 Ann Phillips, Rhos
840 Arwel Jones, Closbach
841 Ann Jones, Closbach

**Meidrim**

131 Ray Lewis, 13 Lôn Ddewi
133 Archie Lewis, 13 Lôn Ddewi
400 Dr. Bronwen Evans, Gwynfaes
402 Andrew ac Alun Howells, Eithinduon Isaf
403 Eirian Howells, Eithinduon Isaf
404 Gwawr Lewis, Neuadd
405 John Lewis, Talarwen, Heol Llanboidy
406 Patsy Lewis, Talarwen, Heol Llanboidy
407 Danny a Linda Newton, 2 Llangarthgynin
408 Sian Thomas, Tŷ'r Alma
409 Teulu'r Alma
412 Emyr Williams, Y Bwthyn
413 Eleri Williams, Y Bwthyn
510 Hefina Jones, Brynheulog
607 Elliw ac Elen Thomas, Plaspaun
610 Wendy Thomas, Clyneri
624 Ray ac Archie Lewis, 13 Lôn Ddewi
647 Alun a Linda Davies, Waunolau Fawr
667 Ambrose Lewis, Neuadd
668 Jean Lewis, Neuadd
705 Elinor Jameson, Cil y Barcud

**Meisgyn**

401 Eilir Davies, Tŷ Cornel, 28 Crystal Wood Drive
439 Efa-Grug, Mari Elli a Betsi Haf Davies, 15 Windsor Drive
446 Angharad a Stuart Lloyd, 11 Delfryn
449 Teleri Gwen ac Elin Hâf Lloyd, 11 Delfryn
478 Cynwyl Davies, Tŷ Cornel, 28 Crystal Wood Drive
414 DJ ac Elfair Jones, Foelfeini, **Mynachlog Ddu**

**Penfro**

180 Margaret Titterton, 31 Rocky Park
418 Maldwyn Llewelyn, Ravenswood, Hodgeston
663 Dai Rees, 33 Whitehall Drive
772 Kathy Thomas, 17 Grove Way

**Peniel**

279 Dewi a Pam James, Sarnlas
331 Efan a Griff Thomas, Bray Hill
483 Agnes Evans, Maes yr Ysgol

**Pentlepoir**

692 Ted Nicholas, 74 Millfields Close
693 Menna Nicholas, 74 Millfields Close
114 Dilwyn Llewellyn - Dil Agri, **Pentregalar**

**Penybont**

590 Olive Bowen, Lan-y-Groes
780 Heulwen ac Alan Howells, Cwm

**Pontyberem**

261 Aled ac Amy Adams, 11 Maesyfelin

**Pontypridd**

420 Daniel Hay, 28 Heol Dihewyd, Llantwit Fardre,

**CJ Waste cyf.**

Carl Britton
01994 238367
07506 482007
cjwasteltd@yahoo.com



Prisiau ardderchog

Gwagio tanciau septig / carthbyllau

Britton Villa, Llangynin,
Sanclêr, SA33 4JZ


**GLANDY CROSS STORES CYF**
**Glandy Cross**

*DAN BERCHNOGAETH NEWYDD*

Nwyddau di-ri ar gael ar gyfer unrhyw achlysur gan gynnwys Petrol, Gwin a Chwrw, Glo, Coed Tân, 'Top up' Trydan a Loteri

POST OFFICE Esso

Ar agor Llun - Sul
6y.b - 9 y.h.



*G WILLIAMS*
*a'i FEIBION*

Monumental Masons

*SEIRI MEINI COFFA*
Pentre Yard
San Clêr
Ffôn: (01994) 231390

**Princes Risborough**

267 Freddie Robertshaw, 85 Woodfield Road
275 Morgan Robertshaw, 85 Woodfield Road

**Pwll-Trap**

231 Anne James, Arfryn, Lôn Ffynnongain
179 Geraint Phillips, Myddfai
199 Nesta Rees, Penybryn, Heol Bethlehem
204 Eirlys a Don James, 21 Parc Llwyncelyn
245 Celt a Shân Nicholas, Penybryn, Heol Bethlehem
265 Elspeth Scott Robinson, D/O Sally Davies, Lluest
266 Cai Alexander Booth, D/O Sally Davies, Lluest
284 Dorothy Jones, Llwynteg, Lôn Wen
359 Graham John, Tŷ Capel Bethlehem Newydd
374 Hywel ac Ann Morris, Dolanog
421 Huw Davies, Glynderi, Lôn Ffynnongain
422 Sally Davies, Lluest, Lôn Ffynnongain
424 Ivy Edwards, 25 Gors Fach
429 Ryland James, Cartref, Heol Bethlehem
430 Beti-Wyn James, Cartref, Heol Bethlehem
431 Don James, Hafan-Hedd, Clos Nathaniel
432 Rita James, Hafan-Hedd, Clos Nathaniel
434 Ruth Jones, Llwynybryn
436 Iona Morgan, Ynyswen, Heol Bethlehem
447 Janet Lewis, Pennant, Heol Bethlehem
462 Verian a Margaret Williams, Y Berllan
482 Taliesin Scott Robinson, D/O Sally Davies, Lluest
549 Arwel a Rhiannon Jones, Garthrhos, Lôn Ffynnongain
564 Rhys Thomas-Phillips, Garreg Lwyd
567 Eryl Phillips, Garreg Lwyd
583 Myra Davies, Bryntirion
622 Brian ac Eirwen Davies, 8 Parc Llwyncelyn
635 Gareth Phillips, Ysguborfawr, Lôn Ffynnongain
643 Arwel Edwards, 25 Gors Fach
644 Rhian Edwards, 25 Gors Fach
652 John Holdcroft, Ger-y-Gors
655 Eiryth Holdcroft, Ger-y-Gors
672 Marlene Lewis, Hafan Glyd
709 Luca a Mila Inward, D/O Christine Evans, Maes yr Onnen
713 Rhonna Thomas-Phillips, Maes-yr-Awel, Lôn Ffynnongain
733 Delyth a John Evans, Crud-y-Wawr, Lôn Ffynnongain
781 Luca a Mila Inward, D/O Christine Evans, Maes yr Onnen
791 Howell Jones, Courtland
792 Sharon Jones, Courtland
809 Freddie Read, D/O Christine Evans, Maes yr Onnen
500 TJ Finch, Cwmgiedd, 56 Brynmawr Avenue,

**Rhydaman**

30 Tomos Lewis, Dail Pren, **Rhydargaeau**

**San Clêr**

16 County Stores, Pobyddion
38 Lyndon George, Garej Blaenwaun, Heol yr Orsaf
43 G. Williams, Seiri Meini Coffa
44 Deri Page, Cigydd, Heol y Pentref
45 Pethau Olyv, Heol y Pentref
46 Evans - Fferyllfa Medical Hall a Fferyllfa San Clêr
47 Europa, Ffasiynau Gwallt
59 Eagle Signs, Parc Tir Owen
63 Clwb Rygbi San Clêr
65 Cartref Preswyl Y Garreg Lwyd, Heol Salem
84 Llawn Cariad, Heol y Pentref
95 All Pump Services - Haydn Lloyd, Cleifion Mill
113 Lloyd & Whyte, Yswiriant, Cleddau Buildings
228 Margaret Rees, 1 Rhyd y Gors, Heol yr Orsaf
230 Edith Heulwen Bowen, D/O Wilma Robins, 13 Rhyd y Gors
257 Trevor a Morfydd Phillips, Hazeldene, Rhiw'r Orsaf
298 Harri Dylan Bowen, D/O Wilma Robins, 13 Rhyd y Gors
314 Don a Sheila Howells, 2 Cae Glas
322 Leia, Iori a Deina Jenkins D/O Janette Jenkins, Glantaf House
348 Osian Berti Jenkins D/O Janette Jenkins, Glantaf House
384 Megan Beards, D/O Wilma Robins, 13 Rhyd y Gors

RHYDWYN DAVIES
TRYDANWR
Parcylleine, Blaenffos, Boncath. SA37 0HZ
NICEIC APPROVED CONTRACTOR
Ffôn: 01239 831212
Symudol: 07836 751238

AM Y DEWIS GORAU GALWCH HEIBIO
SIOP Y PENTAN
Y Farchnad, Caerfyrddin
*Anrhegion Cyfoes Cymraeg*
*Llyfrau Cymraeg*
*CD's*
*Cardiau Cyfarch*
*a llawer mwy*
Ffôn: 01267 235044

Fferyllfa Clunderwen
GWASANAETH DOSBARTHU AR GAEL
Os ydych am i ni archebu eich presgripsiwn, cysylltwch â ni
Ffôn: 01437 563228
Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe, Clunderwen. SA66 7NP

385 William Beards, D/O Wilma Robins, 13 Rhyd y Gors
386 Francesca Beards, D/O Wilma Robins, 13 Rhyd y Gors
388 Wilma Robins, 13 Rhyd y Gors, Heol yr Orsaf
389 Daniel Undabarrena Jones D/O Wilma Robins, 13 Rhyd y Gors
393 Alexia Jones, D/O Wilma Robins, 13 Rhyd Gors
395 Matilda Eira Bowen, D/O Wilma Robins, 13 Rhyd y Gors
411 Peter ac Ann Crowdie, Parc View
425 Hannah, Daniel a Kerry Reynolds, Santa View
426 Kay James, 3 Lôn Fair
433 Beca Jones, 20 Cefn Maes, Rhiw'r Ostrey
450 Iestyn, Rhys ac Eleri Page, Haulfryn, Rhiw'r Orsaf
451 Joan Picton-Davies, Tre Newydd
452 Tomos Rees, Tŷ Hawddgar
457 Sion Thomas, 7 Clos Griffith Jones
458 Beryl Thomas, 9 Rhyd y Gors, Heol yr Orsaf
460 Dafydd Williams, Pentalar, Heol Meidrim
461 Nest Williams, Pentalar, Heol Meidrm
464 Meirion Morris, 38 Maes y Bryn
476 Dorian Anthony, Coedfryn, Heol Meidrim
480 Rhys Tomos Bowen D/O Wilma Robins, 13 Rhyd y Gors
485 Einir Rees, 18 Rhyd y Gors
516 Betsan Mair Bowen, D/O Wilma Robins, 13 Rhyd y Gors
518 Osian Elis Bowen, D/O Wilma Robins, 13 Rhyd y Gors
536 Owain-Llŷr Williams, Lower Court
537 Elin-Wyn Williams, Lower Court
572 Bethan Davies, Derlwyn Taf, Backe
574 Dorman Davies, Glasfryn Park, Rhiw'r Orsaf
575 Morfydd Davies, Glasfryn Park, Rhiw'r Orsaf
577 Richard Owen-Thomas, Manarddwylan, Rhiw'r Orsaf
589 James Idris Bowen, D/O Wilma Robins, 13 Rhyd y Gors
600 Telyn-Hâf Thomas, 18 Cae Gwyrdd
602 Cathryn Elward, 18 Cae Gwyrdd
642 Geraint Davies, Fferm yr Hendre
665 Vida Owen-Thomas, Manarddwylan, Rhiw'r Orsaf
679 Meinir Thomas, Felinfach
745 Tomos Jones, 20 Cefn Maes, Rhiw'r Ostrey
750 Ioan Thomas, 18 Cae Gwyrdd
751 Eric Adams, Richmore House, Rhiw'r Orsaf
767 Ryan Thomas, 7 Clos Griffith Jones
768 Ellie Thomas, 7 Clos Griffith Jones
778 Ann Jones, Cwmteg, Backe
827 Christine Anthony, Coedfryn, Heol Meidrim
833 Rhian Rodgers, 28 Cae Gwyrdd
839 Sheila Jones, Hillbury, Rhiw'r Orsaf

**San Francisco**

822 Heulwen Davies
823 Niamh Davies

**Saundersfoot**

454 Melfa Smith, 7 Sandyhill Park
760 Gwilym Lawrence, 41 Bevelin Hall

**Tafarnspeit**

71 Canolfan Arddio Tafarnspeit - Paul Webb,

**Talacharn**

25 Hywel Davies, Davies y Gwres
566 Ann Harry, Sunnyhill Cottage, Heol Holloway
584 Pam Jones, 14 Stryd Fictoria
587 Beti Wilding, Ivy Cottage, Stryd Clifton
603 Robert Elward, Tadil
605 Heulwen Elward, Tadil
200 Meryl Jones, Plas-y-Dderwen, **Talog**
368 Janet James, Dolwerdd, **Talyllychau**
285 Rhythwyn ac Ann Nicholas, Hafan-Deg, **Tegryn**

**Tre Ioan**

677 June Walters, 15 Parc Starling
758 Heather Williams, Lluest, 8 Heol Dyfnallt
808 Nola a Tomi Evans, 49 Maes Macsen

**Trelech**

145 Beryl a Meirion Thomas, Penlan
340 Cedric Davies, Awelfa
396 Meinir Davies, Plasnewydd
469 Delyth Jones, Treto Isaf
470 Edith Ridley, 1 Caerwenog

PREN DA
Gwaith coed o bob math
**Dafydd Makepeace**
Fferm y Cross
Llandysilio
Clunderwen
Ffôn: 07967 220289

SAER COED
IFAN LEWIS
CARPENTRY
07456 626 735

STEVE DANIELL
Monraker
PLYMIWR
Gosod ystafelloedd ymolchi
"Handyman"
Tir y Bont
Llanglydwen
Hendy Gwyn ar Daf
Ffôn: 07837 089648

484 Alyson Harries, Dinas Fach
494 Eric Harries, Dinas Fach
540 Islwyn Walters, Nantycyw
546 Maureen Rees, Blaendewi Fach
640 Eifion a Menna Thomas Jones, Brynsiriol
**Woodstock**
441 Nia Morris, Fferm Woodstock
770 Llew Morris, Fferm Woodstock
805 Menna Morris, Fferm Woodstock
**Y Bala**
472 Hafwen John,Preseli, 28 Cae Gadlas,
**Y Bontfaen**
474 Sian Elin Jones, Y Grawndy, Llantriddyd
613 Bryan a Mearl Owen, 5 Tyla Rhosyr
358 Sally Evans, Meirion, **Y Glôg**

Does dim cyfeiriad gennyf i'r canlynol - os ydych yn medru helpu, a wnewch chi gysylltu gyda fi, os gwelwch yn dda? Diolch.
126 ME a LH Evans
162 E M Davies
268 Elizabeth Lewis (wedi ymaelodi eleni)
616 R. Thomas
618 Christian Pris
619 T a S Phillips




**FFLAN SELSIG SAWRUS**

**CYNHWYSION**
8 owns / 225g crwst byr
8 owns / 225g cig selsig
*LLENWAD*
1 pwys / 450g tatws
1 winwnsyn canolig
1 llwy de wastad o halen a phupur
1 owns / 25g margarîn
8 owns / 225g cig selsig porc

**DULL**
Berwch y tatws mewn ychydig o ddŵr a halen.
Draeniwch a'u stwnsio yn dda gyda'r margarîn.
Rholiwch y crwst i drwch o ¼ modfedd i leinio dysgl bastai 8 modfedd.
Torrwch y winwnsyn yn fân a'i ychwanegu at y cig selsig, ac ychwanegwch halen a phupur.
Cymysgwch yn dda.
Taenwch y cig selsig dros y crwst heb ei goginio ac yna rhowch y tatws ar ei ben i orchuddio'r cig selsig.
Pobwch ar 190°C / 375°F / Marc 5 am 30 munud.

# MERCHED Y WAWR

**Cangen Beca**
Daeth 12 ohonom ynghyd i ddathlu Gŵyl Dewi i Gaffi Beca ddechrau mis Mawrth.
Yn dilyn cawl blasus a phwdin a phice ar y maen, croesawodd Angharad blant o Ysgol Brynconin atom i'n diddori, drwy ganu, llefaru a chanu'r piano a'r clarinet. Wedi rhaglen arbennig ganddynt, diolchodd Angharad a dymunodd bob llwyddiant i nifer ohonynt yn Eisteddfod Sir yr Urdd yn Abergwaun.



**Cangen Sanclêr**
Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y llywydd Eileen. Dymunwyd yn dda i Lilwen sy'n ymddeol ar ddiwedd y mis. Diolchwyd i Janet am weu nifer o flodau i'r Prosiect Blodau Positifrwydd Pinc ac i Rita am weu 12 o gywion at apêl Hosbis Tŷ Bryngwyn a Chanser Prostad Cymru.
Cyflwynodd Eileen dair siaradwraig y noson sef Iona Morgan, Ruth Skingley a Wenfys Rees. Roedd y tair yn arfer mynychu dosbarth celf cyn y Cyfnod Clo ac wedi parhau, gydag aelodau eraill y grŵp, i weithio fel grŵp celf estynedig gan osod tasgiau i'w gilydd yn fisol. Cafwyd hanes sut y daethant i fod yn aelodau o'r grŵp oedd yn cwrdd ym Mhant y groes Llanboidy o dan gyfarwyddyd Johnny Cox. Soniwyd am y lleoedd y buont yn ymweld â nhw ac am y symbyliadau i'w gwaith celf wrth iddyn nhw ddangos enghreifftiau o'u gwaith a sôn am y deunyddiau a ddefnyddiwyd i greu'r celf amrywiol. Cafwyd noson bleserus iawn yn gweld y celf a gwerthfawrogwyd y doniau a amlygwyd.

**Cangen Hendygwyn**



Ymgasglon ni yng Nghanofan Hywel Dda i fwynhau cawl blasus a chacennau bendigedig a baratowyd i ni gan Llinos a'r criw yn nghaffi'r Ganolfan.

## Cangen Gronw

Croesawodd Llinos Thomas, y llywydd bawb i’r cyfarfod. Croesawyd Gwenda Williams a Marion Davies yn ôl wedi cyfnod o afiechyd.
Dymunwyd yn dda i Wenfys Rees gan ei bod wedi cael anaf ar ei throed. Diolchwyd iddi am y trefniant blodau a wnaeth i Jane Evans ar ein rhan, ar achlysur penblwydd arbennig Jane yn 90 oed. Galwodd nifer o’r aelodau i’w gweld ar ddydd ei phenblwydd.
Dilynodd Meirwen Evans a Meinir Eynon y cyfarfod rhanbarth diwethaf ar zoom. Profiad gwahanol ond buddiol iawn.Olrheiniodd Meinir y prif negeseuon a rhanwyd y cofnodion ymysg yr aelodau.
Mae nifer o’r aelodau wedi archebu tocynnau i fynd i ginio’r Llywydd Cenedlaethol, Bethan Picton Davies, yng Ngwesty Crug Glas, ar Sadwrn, Ebrill 25ain. Maent yn edrych ymlaen yn fawr.
Croesawodd Llinos ein siaradwr gwâdd Robert Jones, o Glynderwen, sydd ynghŷd a’i wraig Nesta,wedi creu busnes Gwenyn Cynhenid. Dechreuodd ei ddiddordeb yn blentyn deuddeg oed a thros y blynyddoedd mae eu profiad wedi cynyddu yn eang. Rhoddodd fanylder ar swyddi y gwahanol wenyn a sut oedd paill o wahanol flodau yn creu ansawdd a lliw gwahanol i’r mêl.
Synnwyd yr aelodau ar gyfraniad pwysig y gwenyn i gylch natur. Cafwyd cyfle i holi cwestiwn ac i brynu pot o fêl. Diolchodd Llinos i Robert am rannu ei



**Dyma lun o Robert Jones gyda llywydd y cyfarfod Llinos Reynolds ac un o’r ysgrifenyddion Meinir Eynon.**

## Clwb Gwawr Merched Hywel

Mae Clwb Gwawr Merched Hywel wedi bod yn brysur yn y misoedd diwethaf!
Ar Ionawr 2il, cafwyd ein Cinio Nadolig yn y Welsh House, Caerfyrddin. Diolch i Mary a Meinir am drefnu.
Ar Ionawr 28ain, cafwyd noson ddiddorol yng nghwmni Ken Davies yn Neuadd Llandysilio, lle bu’n siarad am Iechyd, ymarfer corff a maeth. Diolch i Rhian a Nia am drefnu’r noson.
Yna, ar Chwefror 25ain, fe gafwyd noson hwylus dros ben yn y Clwb Rygbi pan drefnodd Shan noson o chwarae gemau bwrdd. Roedd ganddi ddewis helaeth o gemau a chafwyd llawer o hwyl a chyfle am glonc yn ystod y nosweth. Diolch i ti Shan am drefnu!
Ar nos Fawrth, Mawrth 25ain, aeth criw o’r gangen i Grymych i ymweld â Chwmni Boomerang. Busnes Arwyddion a Dylunio yw Boomerang a sefydlwyd gan Carwyn Rees, gynt o Fferm Coynant, Login yn Chwefror 2014. Ers hynny, mae’r busnes wedi mynd o nerth i nerth ac erbyn heddiw, fe welwch eu dyluniau lliwgar a bachog ar gerbydau, arwyddion, baneri a ffenestri yn ogystal â chardiau busnes a phamffledi. Cafwyd anerchiad diddorol ac addysgiadol gan Carwyn am y broses o ddylunio a chyfle i weld yr argraffwr anferthol yn mynd drwy ei waith yn ogystal â’r torrwr finyl. Yna, aethom i’r gweithdy mawr i weld sut y rhoddir y dyluniad ar forden er mwyn gwneud arwydd. Roedd hi’n noson ddiddorol dros ben. Yna, fe aethom at Sioned Phillips a’i staff yn Cegin 24 ar sgwâr Crymych am bryd o fwyd blasus.
Diolch i Delyth Roblin a Diane Jones am drefnu’r noson.




the LONDON HOUSE butchery
Stryd Sant Ioan
Hendygwyn ar Daf
SA34 0AN
01994 240705 / 240055
*Galwch mewn am y dewis gorau*
Dilynwch ni ar Facebook

GERALD BLAIN
CYMDEITHION CYF
07970 420322
Gerald@GeraldBlainAssociates.co.uk
GeraldBlainAssociates.com
@GBAssociates1

RUSSELL THOMAS
GWASANAETH HURIO JCB
PEIRIANT CLODDIO 360°
TRACTOR A THREILAR
Copper Beech, Efailwen,
Clunderwen
Ffôn: 01994 419529
Symudol: 07971 558514

# CLUNDERWEN

**Penblwyddi**
Penblwydd hapus iawn i Kirsty Morris a oedd yn 40oed ar Ebrill 5ed.



**Clwb Ffermwyr Ifanc Clunderwen**
Llongyfarchiadau i glwb Clunderwen ar ddod yn gyntaf yn y gystadleuaeth codi ffens a thrydydd yn gyffredinol am ffensio yn y Diwrnod Gwaith Maes. Llongyfarchiadau i bawb arall fu'n cystadlu a chael llwyddiant.



**Sefydliad y Merched Clunderwen a Llandysilio**
Am ei bod hi'n Ŵyl y Banc ar noson arferol, aeth y merched i fowlio lawr yn Aberdaugleddau ar nos Lun, Mawrth 30ain, gyda bwyd i ddilyn.
Gwnaeth Nia Davies roi tro ar sashiko ar Mawrth 5ed yn Hwlfforrdd gyda sefydliad y Sir.



# LLANDYSILIO

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Tomos Dugmore a Madison Clarke ar enedigaeth bachgen bach ar Mawrth 29ain, ŵyr i Iris a Andrew Dugmore o Landysilio a Doug a Louise Clarke.

...Hefyd llongyfarchiadau i Daniel ac Alice Roblin ar enedigaeth merch fach, ar Ebrill 4ydd, chwaer fach i Esther, wyres i Delyth a Michael Roblin.



**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad ag Erica Evans a'r teulu sef Nigel a'r plant, Morgan a Lauren, Penrarth ar golli ei mam Sophy Thomas o Hermon gynt, a fu farw yn sydyn yn ei chwsg.

..Hefyd cydymdeimlwn gyda theulu Mike Simmons, Nant Conin a fu farw'n sydyn ar Mawrth 24ain.

DH DAVID HARRIES & Co DH
CYFANWERTHWYR
FFACTORAU CERBYD
Westgate, West Street,
Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 241100
Batteries, Belts, Bearings, Compressors,
Clutches, Filters, Hydraulics, Oil, Paint.

Bysiau Cwm Tâf
"Os am deithiau hwylus braf
Dewch da ni ar fws Cwm Tâf"
PENRHEOL,
HEN-DY-GWYN,
SA34 0NH
01994 240 908
www.tafvalleycoaches.co.uk

JTL PLYMIWR
Arbenigwr ystafelloedd ymolchi / gwlyb
• Gwasanaeth plymio llawn
• Gosodwyr systemau dŵr twym heb fent
• Gwasanaeth teilio llawn
• Dyfynbris am ddim
• 25 mlynedd o brofiad
07788 422645 / 01437 563206
jodyleyfield@hotmail.co.uk

**Penblwyddi**
Penblwydd hapus i Shirley Thomas a oedd yn 70 oed ar Ebrill 4ydd.



Penblwydd hapus iawn i Melissa Morris ( gynt o 1, Rock House ) sydd yn dathlu ei phenblwydd yn 40! Joia'r dathlu! Cariad, Gwyneth, Gareth, Tomos a Celt.



**Eisteddfod y Garreg Las**
Prynhawn dydd Sul, Mawrth 22ain, cynhaliwyd cyngerdd yng Nghapel Pisga Llandysilio ar gyfer casglu arian i Eisteddfod y Garreg Las ar ran ardal Llandysilio a Chlunderwen. Cawsom awr a hanner pleserus iawn yng nghwmni Jessica Robinson, Owain Jenkins a Côr Crymych a'r cylch dan eu harweinydd Catrin Davies a'r cyfeilydd Elin Ennis. Roedd amrywiaeth eang yn y gerddoriaeth yn cynnwys eitemau gan gyfansoddwyr o Gymru, gwaith clasurol a dwy eitem gomedi gan yr unawdwyr. Mae'n diolch i bawb wnaeth gymryd rhan. Roedd y digwyddiad yn gyngerdd teilwng i orffen ymgyrch yr ardal, er mwyn cyrraedd mwy na'r nod a osodwyd gan yr Eisteddfod.
Felly, diolch yn fawr iawn i bawb yn yr ardal am unrhyw gyfraniad a gafwyd at y casgliad lleol.
Ni'n byw ar y Landsker ac mae'r gydnabyddiaeth am haelioni ar draws y ddwy ochr o'r ffin iaith. Mae rhai wedi rhoi yn hael o'u hamser yn wirfoddol, yn ogystal â'r rhoddion ariannol, ac mae'r diolch i bawb.
Ond, fe fyddwn yn gofyn am eich cymorth unwaith eto yn agosach at yr Eisteddfod oherwydd mae angen addurno a harddu'r ardal. Disgwylir i ganran uchel o gefnogwyr yr Eisteddfod deithio i gylchfan Penblewin ac i'r gogledd ar yr A478 drwy Clunderwen a Llandysilio. Mae gofyn i ni felly ddangos y ddraig goch ar hyd y ffordd a gofynnir i gartrefi, wrth ochr yr hewl fawr, ein helpu os gwelwch yn dda. Byddwn mewn cysylltiad.



**Côr Crymych**



**Jessica Robinson ac Owain Jenkins**

## RHYDYCEISIAID

Cydymdeimlwn yn ddwys â Ronnie a Mair Morgan a'r teulu ar farwolaeth brawd Ronnie sef Leslie Morgan o Arberth.









# SANCLÊR

Llongyfarchiadau i Salon Gwallt Hazel's ar eu llwyddiant yng Ngwobrau Y Gorau o Wallt a Harddwch Cymru 2026. Fe enillon nhw'r wobr am y salon gwallt gorau yn 2026. Diolch i bawb oedd wedi eu henwebu.



**Staff Salon Trin Gwallt Hazel's gyda'i gwobr**

# BANCYFELIN

**Cana**

**Ysgol Sul Cana**

Bu plant Ysgol Sul Cana yn paratoi ar gyfer y Pasg drwy wneud cacennau, a chawsant helfa wyau Pasg hefyd.



**Apêl Coda Ni**

Cafwyd ymtaeb gwych gan aelodau Cana a Bancyfelin a gweddill yr Ofalaeth i Apêl Codi Ni am ddillad. Dyma gyflwyno'r dillad i griw Coda Ni.



**Penwythnos y Pasg**

Cafwyd penwythnos y Pasg prysur iawn yng Ngofalaeth Bancyfelin a Chaerfyrddin. Ar ddydd Gwener y Groglith teithiodd nifer o aelodau i Gopa Bryn Myrddin er mwyn cynnal gwasanaeth am 3 o'r gloch. Yna ymunodd mwy o ffrindiau er mwyn cael cyfle i gymdeithasu a chael paned a chacen flasus yn Alltyfyrddin.



Cafwyd oedfa undebol fendithiol iawn ar fore Sul y Pasg yng Nghapel y Priordy, ac yna ar brynhawn Sul cynhaliwyd dathliad ym mhentref Bancyfelin, gan ddechrau ar ein taith drwy'r pentref ger mynedfa'r Wenallt, ac oedi ar y daith i ganu emynau cyn cynnal oedfa yn y Capel. Yn dilyn yr oedfa mwynhawyd paned a byns y grog.



AWEN TEIFI
Dewis da o lyfrau Cymraeg i blant ac oedolion, hefyd cardiau a theganau
Ar agor 9yb - 5yh
Llun i Sadwrn
Ffôn: 01239 621370
23 Stryd Fawr
Aberteifi. SA43 1HJ

CENNYDD JAMES
- Adeiladwr
- Adeiladau newydd
- Adnewyddiadau
- Llwybrau a phatios
- Plastero a sgimio
- Adnewyddu simneiau

Gwasanaeth yn y Gymraeg!
Ffôn: 01239 831100
Ffôn Symudol: 07968 163181

Ifan Phillips 07788 424559
CANOLFAN REHAB CENTRE
therapi chwaraeon clinigol
ar gyfer poenau ac anafiadau cyffredinol sy'n gysylltiedig â chwaraeon a gwaith

**Gibeon**

Cydymdeimlwn yn ddidwyll â Colin a Hilary , Anwen a Sioned, Warwenallt, ar farwolaeth mam Colin, sef Margaret Evans, Bancycapel.

Ar Fore Sul, Mawrth 15fed roedd yr oedfa dan ofal yr Ysgol Sul. Mis Mawrth oedd thema’r gwasanaeth a chyflwynwyd llawer o wybodaeth am fis Mawrth mewn darlleniadau, caneuon, cerddi a rap. Cafwyd anerchiad pwrpasol am Dewi Sant a Sant Padrig gan Beti-Wyn. Yn ystod yr oedfa, gan ei bod yn Sul y Mamau cyflwynodd yr ieuenctid flodau i’w mamau. Hilary oedd yn cyfeilio. Ar ddiwedd yr oedfa mwynhawyd paned yn y festri.

Cynhelir Oedfa’r Pwnc yng Ngibeon ar Fai 10fed am 1.30 y.p. oedfa unedig i bedair eglwys cylch y Gymanfa. Croeso i bawb.

Cofiwch am Gwrdd Chwarter Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin yng Ngibeon ar Fai 14eg am 4 a 7 o’r gloch. Yn oedfa’r hwyr pregethir gan y Parch Owain Llyr Evans Caerdydd, Llywydd Undeb yr Annibynwyr. Darperir lluniaeth rhwng y ddwy oedfa. Croeso cynnes eto i bawb.



**Ieuenctid Ysgol Sul Gibeon yn cyflwyno blodau i’w mamau ar Sul y Mamau.**

**Sefydliad y Merched**

Cafodd merched Bancyfelin noson dda yn ddiweddar yng ngystadleuaeth dartiau tîm. Yn anffodus, collon nhw yn y rownd derfynol yn erbyn tîm cryf o Sefydliad y Merched Hendygwyn.



## LLANGYNIN

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Rhodri a Marian Glyn Thomas, Llanddwyn, ar enedigaeth ŵyr bach newydd, sef Macsen Jac, mab Rolant a Harriet, a brawd bach i Elodie.

**Penblwydd**

Penblwydd Hapus arbennig iawn i Melissa (Llwynpiod) wrth iddi ddathlu’r 40! ar y 17eg o Ebrill. Cariad wrth, Dafydd, Gareth, Gwyneth, Tomos a Celt



**Diolch**

Dymuna Arwyn Jones, Maes-y-Coed, ddiolch i’w deulu a’i gymdogion a’i ffrindiau i gyd am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei ben blwydd arbennig yn 50 oed. Diolch o galon i bawb am eu caredigrwydd.

LLAWN CARIAD

**Detholiad o anrhegion Cymraeg a Saesneg o safon**

Ffôn: 07528 945287 / 07766 418843
Ebost: llawncariad@gmail.com
Facebook: Llawn Cariad
www.llawncariad.co.uk




Bwyd Byd Byb

- Bwydydd a diodydd o Gymru a thu hwnt.
- Bwydydd at ddeiet arbennig
- Bwydydd moethus
- Nwyddau glanhau ac ymolch naturiol
- Nwyddau wedi eu pobi yn y siop.
- Bwydydd cyflawn a chynhwysion bob dydd.
- Gwasanaeth archebu nwyddau a hampers ar gael drwy'r flwyddyn

1 Prospect Place, Crymych, SA41 3QQ
Ffôn: 01239 831537
e.bost: suzannejonesbyb@gmail.com

**Cymdeithas Gymraeg Llangynin**

Bu noson ddifyr arall gan y Gymdeithas Gymraeg yn Neuadd y Bryn ar Mawrth 11eg, a'r mis hwn cawsom y pleser o groesawu'r cyflwynydd teledu poblogaidd a'r awdures Mari Grug, sydd bellach yn wyneb cyfarwydd ar y rhaglenni cylchgrawn dyddiol poblogaidd Heno a Prynhawn Da.

Yn ei ffordd naturiol, hamddenol ac anffurfiol bu Mari yn sgwrsio am ei chefndir a'i gyrfa yn ogystal â thrafod rhai o'r heriau y mae hi wedi'u hwynebu dros y flwyddyn ddiwethaf. Wedi'i magu ar fferm ym Mynachlog-ddu, Sir Benfro, a'i haddysgu yn Ysgol y Preseli cyn iddi astudio'r Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd, dechreuodd Mari ei gyrfa ar y rhaglenni plant Ffeil a Planed Plant cyn mynd ymlaen i gyflwyno rhai o ddigwyddiadau diwylliannol mwyaf Cymru .

Ym mis Gorffennaf 2023, datgelodd y bu'n cael triniaeth ar gyfer canser y fron ac mae hi bellach yn llysgennad i Ymchwil Canser Cymru, gan ddefnyddio ei llwyfan i godi ymwybyddiaeth o'r clefyd ac ymgyrchu dros well gofal i gleifion canser metastatig. Er gwaethaf y diagnosis, mae hi wedi bod yn llais cryf dros gadw gobaith a mwynhau pob eiliad o fywyd. Fel mam i dri o blant, mae bywyd yn brysur ond yn llawer o hwyl iddi hi a'i theulu.

Diolch iddi am noson hyfryd ac ysbrydoledig yn ei chwmni . Hefyd, diolch i Mary Phillips a Menna Parri am y luniaeth. Bydd cyfarfod nesaf y Gymdeithas Gymraeg ddydd Sadwrn, Ebrill 18fed, pan fydd Dylan yn trefnu taith ddirgel.



**Dylan John y Cadeirydd gyda'r siaradwr gwadd sef Mari Grug**

**Noson Bingo yn y Bryn**

Roedd Neuadd y Bryn yn gyffyrddus lawn ar gyfer Bingo'r Pasg ar nos Iau, Ebrill 2il, a phawb wedi cael noson llawn hwyl. Trefnwyd y noson gan Bwyllgor Rheoli'r Neuadd, a gwnaethpwyd elw o £193.50 tuag at y gost o gynnal a chadw'r Neuadd.

Diolch i Glyn Rees a Robert Morgan am alw a gwirio'r rhifau ac i'r cyfeillion a fu'n helpu ar y noson. Diolch hefyd i bawb a ddaeth i gefnogi ac a gyfrannodd wobrau ar gyfer y raffl.

## LOGIN

**Calfaria**

Oedfaon

Diolch o galon i Hedd Ladd Lewis ac Orinda Roberts am eu gwasanaeth yn ddiweddar, gwerthfawrogwn hyn yn fawr iawn.

Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer yr wythnosau nesaf :-

Mai 3ydd - Wyn Morris - Cymun 10.30
17eg - Peter Thomas - Cwrdd 10.30
31ain - Alun Lenny - Cwrdd 10.30
Mehefin 7fed - Donna George - Cymun 1.30
14eg - Eirian Wyn - Cwrdd 10.30

**Canolfan Gymdeithasol Ffynnonwen**

Mae cwis wedi ei drefnu ar nos Sadwrn, Ebrill 18fed am 7 o'r gloch dan ofal Ray a Lyn Burnell. Dewch i gefnogi; nid cwis traddodiadol yw hwn ond noson yn llawn hwyl a sbri.

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Ganolfan ar nos Iau, Mai 14eg am 7 o'r gloch. Cofiwch gefnogi'r cyfarfod pwysig hwn gan fod nifer o bethau i'w trefnu a bydd cael cynrychiolaeth dda o'r ardal yn hwyluso'r gwaith.

Pob lwc i unrhyw blant o'r ardal sy'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yn Sir Fôn.

Cyfarchion hwyr i Margaret Griffiths ac Anwen Rooke sydd wedi dathlu penblwyddi arbennig.

## CWM MILES


**Capel Cwm Miles**


Ebrill 26ain Cymun 2 o'r gloch Donna George
Mai 17eg Cymun 2 o'r gloch. Parchedig Euros Jones Evans.

**Cyfraniad i'r Cardi Bach**

Mrs. Wilma Robins, Rhyd y Gors, San Clêr - £20
John a Pauline Thomas, Arberth - £20







# PWLLTRAP

Roedd Brian Davies, Parc Llwyncelyn, yn dathlu ei benblwydd yn 90 oed ar Fawrth 15fed. Daeth teulu a ffrindiau ynghyd ym Methlehem Newydd ar Fawrth 21ain i ddathlu gyda fe a chafwyd prynhawn hyfryd.



Llongyfarchiadau mawr i Jim a Mair Davies, Gorsfach, oedd yn dathlu eu Priodas Ddiemwnt ar Fawrth 26ain. Dymunan nhw ddiolch i bawb am y cardiau, galwadau a chyfarchion.



**Bethlehem Newydd**

Gyda thristwch mawr clywsom am farwolaeth Leslie Evans yn 84 oed. Dyma'r deyrnged a ysgrifennodd Rhodri Glyn Thomas iddo yn y cylchlythyr wythnosol ac a ddarllenwyd yn ei angladd.

"Rydym yn ffarwelio ar hyn o bryd ag un a fu'n ganolog i'r daith o'r gorffennol i'r presennol. Bu'r daith honno yn ddigon poenus i lawer ond yn fwy felly i Les Evans na'r rhelyw. Les Bach ydoedd i'r mwyafrif ohonom. Nid oherwydd ei ddiffyg taldra gan fod hynny yn gyffredin i lawer iawn ohonom. Disgrifiad o'i gymeriad oedd y 'bach' - dyn annwyl a charedig ac i lawer ohonom, cyfaill cadarn a dibynadwy. Doedd gan neb air cas i'w ddweud am Les. Dyn y bobl ydoedd yn estyn cyfarchiad llawen i'w gydnabod a dieithriaid.

Dyn traddodiadol oedd ar lawer ystyr. Doedd e ddim wedi newid rhyw lawer yn yr hanner can mlynedd roeddwn i wedi ei nabod. Ychydig yn fwy araf ei gerddediad a thrwm ei glyw erbyn hyn ond yr un yn y bôn. Traddodiadol oedd e yn ei grefydd hefyd. Gŵr y Gair a'r Gân ydoedd o ran addoliad. Gwrandäwr heb ei ail a pharch ganddo at unrhyw gennad a gwerthfawrogiad o'i genadwri. Fe oedd yr ysgrifennydd a'r cyhoeddwr yng Nghapel Mair a phan fyddai galw, ef hefyd oedd yn cynnal yr oedfa. Go brin bod unrhyw un wedi gwneud mwy o ddefnydd o'r Llawlyfr Gweddïo blynyddol.

Y gân oedd agosaf at ei galon. Roedd yn manteisio ar bob cyfle i arfer ei ddawn. Canai mewn corau ac roedd yn Godwr Canu a chonglfaen y Gymanfa Ganu wrth reddf gyda'i lais tenor cyfoethog. Yr oedd yn cael yr un mwynhad o ganu yn y galeri mewn capel llawn a chynnal y gân gyda dau neu dri o ffyddloniaid. Bu'n addoli yng Nghapel Mair gydol ei oes ac roedd yn ymfalchïo yn y traddodiad hwnnw a'r cyfrifoldeb o'i gynnal hyd y gallai. Cam anodd oedd ymuno â'r addoliad ym Methlehem Newydd iddo a'r euogrwydd a deimlai wrth gloi y drws am y tro olaf.

Doedd y 'pethau modern' ddim yn apelio ato yn naturiol. Rheidrwydd oedd y newid yn hytrach na dewis. Eto i gyd gallem ddibynnu arno. Roedd Les Bach yn gawr yn ein plith a mawr fydd y bwlch ar ei ôl. Go brin y daw unrhyw un i lenwi y gwacter ond gallwn geisio cynnal y traddodiad a'i esblygu er cof amdano."

Ar ddiwedd mis Mawrth cafwyd oedfaon dan ofal Nigel Davies ac Elonwy Phillips a chafwyd bendith fawr yn y ddwy oedfa.

Lluniau o'r Efengylau gan yr arlunydd Jeremy Thomas oedd thema oedfa Sul y Pasg. Cymerwyd rhan gan yr aelodau a gweinyddwyd y Cymun gan y Parch Rhodri Glyn Thomas. Cyfeiliwyd gan Dai Rees. Oedfa hyfryd a braf oedd cael cynulleidfa luosog yn bresennol.

THE FLORAL GOAT
blodau naturiol tymhorol hardd
Karen MacKechnie
Crug y Deri
Llandysilio
SA66 7JJ
07774 715059
karen@floralgoat.co.uk
Yn tyfu wrth ochr yr Afon Conin
Ewyn rhydd flodeugerdd ffarwel

dp MASNACHWYR ADEILADU
"Gwasanaethu ein cymuned ers 30 mlynedd"
LLANBOIDY 01994 448435
ARBERTH 01834 861118
dpbuildingsupplies.co.uk

H THOMAS a'i FAB
Peiriannydd Amaethyddol

Partiau, Gwasanaeth
Tractorau Newydd ac Ail-law
Ffôn: 01994 240349 / 240770

Gyda thristwch y clywyd am farwolaeth Gwen Thomas yn 99 oed. Bu'n aelod ffyddlon ym Methlehem Newydd tra'n byw yn Dolwerdd.

Ar Fawrth 24ain recordiwyd dwy raglen o Dalwrn y Beirdd ym Methlehem Newydd gyda thîmau Crannog, Y Glêr, Aberhafren a Tafarn y Vale yn cystadlu. Cafwyd noson hwylus iawn yn gwrando ar nifer o gerddi arbennig. Roedd cynulleidfa dda yno, diolch i bawb a wnaeth gefnogi a chynorthwyo mewn unrhyw ffordd.




**Tŷ Croeso**

Bu côr Ysgol Griffith Jones yn diddanu yng Nghroeso Cynnes ar Fawrth 24ain a chafwyd llawer o bleser yn gwrando ar y plant.



## BLAENWAUN

**Moriah**

Bu dwy o'r aelodau, Tegwen a Meinir, yng nghyfarfod Cyfundeb Gorllewin Sir Gaerfyrddin ar Mawrth 12fed yng Nghapel y Graig Trelech.

Llywyddwyd gan y Parchedig Gareth Ioan yn y cyfarfod busnes yn y bore a chafwyd adroddiadau gan nifer o bwyllgorau.

Wedi cinio blasus yn Nhafarn Beca gwnaeth Llinos Roberts, Swyddog Cymorth Cristnogol, ein hannerch. Gwnaeth bwysleisio bod dal argyfwng yn Sudan, er nad oes sôn am hyn yn y newyddion. Cynhelir wythnos Cymorth Cristnogol rhwng Mai 10fed ac 16eg ac mae'r ffocws eleni ar Kenya. Gwnaeth rannu tipyn o wybodaeth fydd o gymorth i gynnal oedfaon. Mae dal angen dirfawr am arian mewn nifer fawr o wledydd llwm.

Cynhaliwyd oedfa gymun undebol ym Moriah ar Sul y Pasg, Ebrill 5ed dan ofal ein gweinidog y Parchedig Gareth Ioan. Cafwyd cwmni aelodau Bryn Iwan a Blaenycoed. Yn amlwg, Pasg oedd y thema a dadansoddwyd mewn nifer o ffyrdd, arwyddocâd yr atgyfodiad a phwysigrwydd bod wastad gobaith, a'n braint ni fel Cristion yw byw y bywyd hynny. Mwynhawyd cymdeithasu ar ôl yr oedfa.

Ebrill19eg - oedfa 2 o'r gloch dan arweiniad Nigel Davies.

Mai 3ydd - oedfa 3-30 dan ofal Parchedig Gareth Ioan.

## CWMFELIN MYNACH

Llongyfarchiadau i Beryl a Gareth Williams, Ledbury ar enedigaeth eu hwyres gyntaf. Ganwyd Daisy Eira i'w mab Harri a'i wraig Lucy ar Ebrill 8fed. Dymuniadau gorau i'r teulu cyfan.

**Ramoth**

Cynhaliwyd oedfa gymun ar Sul, Ebrill 5ed o dan ofal Shân Jones gyda oedfa ar Sul y 12fed dan ofal y Parch. Huw George - diolch idynt am eu gwasanaeth.

Trefn oedfaon mis Mai:

Sul 3ydd: Cymundeb dan ofal Mr Lyndon Lloyd - 10.30

Sul 10fed: Oedfa dan ofal Y Parch. Huw George - 10.30

**Clwb 100 Hywel Dda**

1af: Glenys Thomas 2il: Cwmni Adeiladwyr Davies 'Builders' 3ydd: Teulu y diweddar George Bancroft 4ydd: Cwmni 'Printed Chocolates' Gwobrau Arbennig y Pasg 1: Cwmni 'Printed Chocolates' 2: Elfed a Nia Lewis

D. E. PHILLIPS
a'i Feibion
TANYBRYN, GLANDWR
*Trydanwyr*
*Siop Radio a Theledu*
CRYMYCH
Setiau ar werth
Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589

arwyddion EagleSigns
Gwasanaeth Cyflawn am Arwyddion, Argraffu a Lifrau Cerbydau
01994 231749
post@eaglesigns-wales.co.uk
www.eaglesigns-wales.co.uk
Uned 3/4, Parc Tir Owen, San Cler. SA33 4BY

Y GARREG LWYD
Heol Salem, Sancler
Cartref Oddi Cartref

Ffoniwch y rheolwraig
01994 230855

# HENDYGWYN AR DAF

**Capel y Tabernacl**

Trist yw cofnodi ein bod wedi colli dau aelod yn ddiweddar. Bu farw Mrs Emily Davies (Fferm Clydebank ac yna Gerddi'r Ffynnon) ar Fawrth 7fed, ac rydym yn cydymdeimlo'n ddiffuant gyda Gillian, Jane a Judith a'u teuluoedd yn eu colled. Yn yr un modd, bu farw Mr George Bancroft, Porthceri, Hendygwyn ar Fawrth 26ain, ac yn yr un modd rydym yn cydymdeimlo'n ddiffuant gyda Sian-Elin, Lowri a Heledd a'u teuluoedd hwythau.

Dyma drefn yr oedfaon am yr wythnosau nesaf :

Mai 3ydd : Tabernacl 10.30 : Oedfa Gymun : Mr Hywel Slaymaker.

Mai 10fed : Tabernacl 10.30 : Cyrddau Blynyddol : Parchg. Kevin Davies.

Mai 17eg : Uno gyda Bethel neu Trinity am 2.00.

Mai 24ain : Tabernacl : 2.00 : Oedfa : Mrs Elonwy Phillips.

Mai 31ain : Tabernacl : 10.30 : Oedfa : Dr Ryland Jones

Croeso i bawb.

**Cymdeithas Ddiwylliannol y Tabernacl**

Cynhaliwyd cyfarfod olaf y tymor o'r Gymdeithas sef ein te prynhawn blynyddol ar Ebrill 7fed.

Rhoddwyd gair o groeso gan y llywydd, Mr Meurig James cyn croesawu ein gŵr gwadd sef Mr Mel Jenkins i agor yr achlysur. Cafwyd anerchiad ddiddorol ganddo ar ffurf taith drwy ei bentref genedigol sef Glandwr. Difyr oedd clywed am y nifer o fusnesau oedd yn y pentref yn ystod ei blentyndod, ond trist yw nodi fod y mwyafrif ohonynt wedi hen ddiflannu erbyn heddi.



Diolchwyd iddo yn ddiffuant gan Meurig, ac fe ddiolchodd hefyd i bawb a fu'n cefnogi'r gymdeithas ar hyd y tymor. Cafwyd lluniaeth hyfryd a phaned yn dilyn anerchiad Mel, a chyfle i gymdeithasu ymhellach wrth y byrddau. Tynnwyd y raffl a diolchwyd i bawb oedd wedi cyfrannu at y gwobrau a'r lluniaeth.

**Hoelion Wyth – Cangen Hendygwyn**

Ein gŵr gwadd ym mis Ebrill oedd Siôn Jenkins, ac estynnwyd croeso cynnes iddo gan ein Cadeirydd, Claude James. Mae Siôn yn wyneb cyfarwydd i bawb drwy ei waith ar y teledu, ac roeddem yn falch iawn ei fod wedi gallu ymuno â ni.

Ganwyd ef yn Llandysilio, yn fab i Paul a Carolyn Jenkins, ac yn ŵyr i Mel Jenkins, un o'n aelodau. Cafodd ei addysg yn Ysgol Gynradd Brynconin, Ysgol y Preseli lle bu'n Brif Fachgen ac yna Prifysgol Durham, lle astudiodd Ffrangeg ac Eidaleg. Erbyn hyn, gan gynnwys Cymraeg a Saesneg, mae'n siarad pum iaith.

Mae ei dalentau llenyddol yn drawiadol hefyd: mae wedi ennill sawl cadair mewn Eisteddfodau ar hyd a lled Cymru, ac wedi cipio Medal Llwyd o'r Bryn ddwywaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Ychydig fisoedd ar ôl gorffen ei astudiaethau, ymunodd Siôn ag ITV Cymru fel newyddiadurwr dan hyfforddiant, ac mae'n dal yno ddeg mlynedd yn ddiweddarach. Mae bellach yn gyflwynydd a gohebydd gyda ITV Cymru, ac yn cyflwyno Y Byd ar Bedwar a Pawb a'i Farn ar S4C.

Mae ei waith wedi'i arwain at brofiadau anhygoel. Bu'n weithiwr cudd yng nghwmni Amazon wrth ymchwilio i'w amodau gwaith.



Mae wedi cynhyrchu rhaglenni dogfen ym Mhrydain ac ar draws y byd. Dangosodd glipiau o'i waith, gan gynnwys ymchwiliad i weithwyr rhyw yng Nghymru; dilyn merch yn Nhwrci wrth iddi gael llawdriniaeth cosmetig ("Butt Lift"); teithio i Rwanda i weld beth fyddai'n wynebu ffoaduriaid pe cânt eu hanfon yno gan Lywodraeth Prydain ac ymweliad â'r Unol Daleithiau adeg etholiad 2024. Soniodd hefyd am raglen ddogfen bersonol ar iechyd meddwl, rhaglen mae'n arbennig o falch ohoni.

Cawsom noson hynod ddiddorol yn ei gwmni, a diolchwyd iddo gan Ithel Pari-Roberts.


HUW JONES
ADEILADWR
Dorset House
Heol y Gogledd
Hen Dy Gwyn ar Daf
Ffôn: 01994 240811
Symudol: 07817 633329

DERI PAGE
CIGYDD
Cig o'r ansawdd gorau
Heol y Pentre
San Clêr
Ffôn: 01994 230062
Diolch am eich cefnogaeth

GT TYRES
Arbenigwr mewn Teiars Ceir, Masnachol ac Amaethyddol
Brooklyn Garage
Heol y Castell
Aberteifi. SA43 3AE
☎: 01239 612814 / 07765 034705

# RHYDWILYM

**Capel Rhydwilym**

Ddydd Iau, Mawrth 19eg, cynhaliwyd angladd Emrys Llewelyn yn breifat yn Amlosgfa Parc Gwyn, dan ofal y Parchedig Eirian Wyn Lewis, a chladdwyd ei lwch gyda'i rieni ym mynwent Capel Annibynwyr Llandeilo. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â Brian a'r teulu, ac â Pamela Owen, cyfnither Emrys.

Ddydd Sul, Mawrth 22ain, cafwyd oedfa fendithiol dan arweiniad Orinda Roberts.

Roedd oedfa Sul y Pasg eleni yng ngofal Delyth, Gwenallt ac Esther Ifan, gyda Russell Evans yn gweinydu'r Cymundeb a Katrina Jenkins yn canu'r organ. Pwysleisiodd Delyth ei bod yn anrhydedd cael arwain yr oedfa, gan fod gweithgarwch Capel Rhydwilym wedi bod yn rhan bwysig iawn o'i magwraeth, ac yn ganolog i benderfyniad ei mam, y Parchedig Llinos Edwards, i fynd i'r weinidogaeth.



**Gwenallt a Delyth Ifan, Russell Evans, Katrina Jenkins ac Esther Ifan.**

Tudur Dylan Jones fydd yn cymryd yr oedfa ddydd Sul, Ebrill 19eg am 2 o'r gloch.

Dymunwn wellhad buan i John Jenkins, gŵr Katrina, sydd wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar.

# HENLLANFALLTEG

**Cyngerdd Mawr Mawrth**

Trefnodd Pwyllgor Apêl Henllanfallteg gyngerdd yng Nghapel Henllan Amgoed ar nos Wener, Mawrth 13eg i godi arian i Eisteddfod y Garreg Las sydd yn cael ei chynnal yn Llantwd ym mis Awst eleni.

Arweiniwyd y noson gan Eleri Roberts yn ei ffordd hamddenol ei hunan. Yr artistiaid oedd Trystan Llŷr Griffiths a Steffan Lloyd Owen a'u cyfeilydd David Doidge. Hefyd Corlan dan arweiniad Ceirios a Heather ar y piano a'r siaradwr gwadd Aled Gwyn.

Mae Trystan a Steffan yn brysur gwneud enw iddynt eu hunain yn y byd clasurol yng Nghymru ac ymhellach. Mae Trystan yn un o blant Capel Henllan ac mae Steffan yn dod o Amlwch.

Mae'r ddau wedi penderfynu cynnal rhai cyngherddau gyda'i gilydd ac i ganu pob math o ganeuon. Ar y noson yn Henllan bu'r ddau yn canu rhai caneuon ar ben eu hunain, rhai deuawdau ac i orffen ymuno â Corlan a chanu rhai o glasuron Ryan Davies.

Roedd y canu yn arbennig. Trystan, Steffan, Corlan, Ceirios yn arwain a'r ddau gyfeilydd David a Heather yn denu llygaid pawb a'u chwarae medrus ar y piano.

Yr oedd hi'n braf i weld Aled Gwyn nôl yn Henllan 60 mlynedd ar ôl iddo gael ei sefydlu yn weinidog ar Henllan, Capel Mair a Chwm Miles. Er iddo adael 50 mlynedd yn ôl, mae'r cysylltiad wedi dal yn gryf. Fel arwydd o ddiolch i'w gyfraniad ar hyd y blynyddoedd, gofynnwyd i Mererid Hopwood, yr archdderwydd presennol i gyfansoddi soned i Aled Gwyn. Yn y festri ar ôl y bwyd darllennodd Eleri y soned a'i chyflwyno iddo wedi ei brintio mewn ffrâm.

**Soned Aled Gwyn**

*Pwy ŵyr pa fodd mae mesur bugail da?*
*Wrth raen ei braidd? Wrth bris pob pwys o wlân?*
*Wrth ddawn corlannu wedi haul yr ha'*
*yn ôl i'r hendre bob un ddafad fân?*
*Neu ai wrth sut mae'n estyn at ei ŵyn*
*â dim ond clust i wrando, llais yn wên,*
*a moddion llygaid llawen i bob cŵyn*
*pan eilw adre i blwyf y coedydd hen?*
*Rhyw un a ddaeth yn gyfaill yn ein plith*
*ac un drwy'r pellter ddeil yn gwmni i gyd,*
*rhyw un â'i gymwynasau rif y gwlith,*
*a'n dysgodd sut i garu teulu'r byd;*
*un felly sydd yn dal mewn coflaid tynn*
*ein gwlad i gyd yw'r bugail Aled Gwyn.*

**Mererid Hopwood**







Roedd hi'n braf i weld y Capel yn llawn a phawb yn mwynhau. Noson i'w chofio, noson sbesial iawn. Hoffai Pwyllgor Apêl Henllanfallteg ddiolch yn fawr i bawb wnaeth helpu mewn unrhyw ffordd i drefnu'r gyngerdd a sicrhau ei llwyddiant. Gwaith tîm ar ei orau. Diolch hefyd i Menter Gorllewin Sir Gar am ei chefngaeth i'r noson. Diolch yn fawr.



**Côr Corlan, Trystan Llyr, Steffan Lloyd Owen a'r cyfeilyddion David Doidge a Heather Jenkins.**

# LLANBOIDY

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Ronnie a Mair Morgan, Piccadilly a'r teulu wedi i Ronnie golli ei frawd yn ddiweddar.

**Gwellhad**
Dymunwn wellhad buan i Hywel Phillips, Plasybwci wedi iddo fod yn anhwylus a derbyn llaw-driniaeth yn Ysbyty Treforys yn ddiweddar a da yw clywed ei fod adref erbyn hyn.

**Chwaeroliaeth**
Cyfarfu'r aelodau yn y festri ar Mawrth 18fed dan lywyddiaeth Wenfys Rees. Croesawodd bawb i'r cyfarfod a bu'n cydymdeimlo â Mair Morgan wedi iddi golli brawd yng ngyfraith. Croesawodd y gŵr gwâdd Tweli Griffiths. Bu'n adrodd hanes ei waith fel newyddiadurwr tramor, yn cynnwys ymweld â gwledydd Ethiopia a Lybia, ac i orffen ei gyflwyniad bu'n dangos ei ddawn fel consuriwr. Diolchodd y llywydd iddo am brynhawn difyr ac amrywiol. Roedd y te a'r bisgedi yng ngofal Susan Davies a Heulwen.

**Sefydliad y Merched**
Yn eu cyfarfod yn Neuadd y Farchnad ym mis Mawrth, bu'r aelodau yn chwarae chwist ac yn cael canllawiau ar sut i chwarae. Enillydd y gystadleuaeth i addurno 3 cacen fach ar gyfer y Pasg oedd Jayne Evans a Nia enillodd y raffl. Bu Mair, Susan, Gwen a Jayne yn cynrychioli'r clwb yng nghystadleuaeth dartiau'r Sir yng nghlwb Quins Caerfyrddin. Cafwyd noson llawn hwyl gyda bwyd a chwmni da. Bu Denise, Valerie a Jan yng Nghynhadledd Cymru'r mudiad yn Aberystwyth, lle cafwyd amserlen llawn gyda siaradwyr ysbrydoledig a chwrdd ag aelodau ar draws Cymru. Jan, Cheryl, Valerie a Susan gynrychiolodd y clwb yng nghyfarfod grŵp Rebecca yn Trelech lle cafwyd darlith buddiol gan y Frigâd Dân ar ddiogelwch yn y cartref, a bu pawb yn mwynhau bwyd ysgafn a chwmni aelodau o'r ardal.



Aelodau o dîm dartiau Sefydliad y Merched.

**Côr Corlan**



Dyma aelodau Corlan yn cyflwyno siec, drwy ddwylo Mari Grug, tuag at Ymchwil Canser Cymru. Yn dilyn y Carolathon a gynhaliwyd cyn y Nadolig, codwyd swm o £5,200 tuag at yr elusen yma, a diolchwn o waelod calon i bob un a gyfrannodd. Diolch yn fawr i Mari, llysgennad yr elusen, am ddod draw i Lanboidy i dderbyn y siec ac am ei geiriau o werthfawrogiad. Hyderwn y bydd y cyfraniad yma o fudd i'r rhai sydd yn dioddef.

BAR BECA
Rhosfach, Efailwen
Guto Jenkins
Oriau agor Gaeaf: Hydref 1af-31 Mawrth
(Ar gau Llun, Mawrth a Mercher)
Agor Iau a Gwener: 4.30yp - 11yh
Sadwrn a Sul 3yp - 11yh
Oriau Haf: Ebrill 1af - 30ain Medi
(Ar gau nos Lun)
Agor Mawrth, Mercher, Iau 5.30yh - 11yh
Gwener, Sadwrn, Sul 3yp - 11yh
Ffôn: 07554 664316

GSJ
G.S.JENKINS
EFAILWEN, CLUNDERWEN
07554 664 316
Pridd wedi sgrinio ar gyfer blodau, llysiau neu lawnt, hefyd gwasanaeth cludo ceir a nwyddau.


Gwasanaeth hurio cloddiwr 3 tunnell
Cludiant am ddim hyd at 6 milltir
GWION JENKINS
Ffôn: 01994 419222
Symudol: 07787 826574

# MEIDRIM

**Henoed**

Croesawodd Glyn James ein siaradwraig wâdd sef Delyth Robinson o ardal Blaenwaun. Daeth i siarad â ni am sut mae'n gwneud sebon pur allan o laeth biwch. Bu'n rhaid iddi ddilyn y trywydd hyn oherwydd alergeddau i'w chroen. Roedd yn ddiddorol iawn i wrando arni. Gwnaeth nifer ohonom brynu bar o sebon o'r amrywiaeth oedd ganddi. Diolchwyd iddi gan Meirion Morris. Bydd y cyfarfod nesa ar Fai 5ed pan ddaw Lilwen Mc Allister i'n diddanu. Yn gyfrifol am y te - Eirwen, Jennifer, Emrys, Nema. Yn rhoi Raffl - Hiefena, Brian, Emrys, Glenda.

# TRELECH



Llongyfarchiadau i Gwion Jones-Howells, Erwlon, Trelech am ennill Champion Junior Handler yn ei oedran a hefyd yr 'Overall Champion Handler' yn y Ffair Aeaf 2025. Mae Gwion yn fab i Owen a Delyth ac yn ŵyr i Elaine Howells, Lodge.



Dyma lun o blant Cylch Meithrin Trelech yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi yn ddiweddar.

Penblwydd hapus arbennig i Dafydd Phillips, Cilifan ar ddathlu ei benblwydd yn 30 oed y mis hwn.

Cynhelir Sioe Gynnyrch a Choginio ar ddydd Sadwn, Ebrill 25ain. Os am gystadlu a chefnogi bydd angen i'r holl nwyddau gyrraedd y Ganolfan rhwng 11yb a 12yp. Bydd y sioe yn dechrau am 2yp. Bydd cwis i ddilyn yn Nhafarn Beca am 7:30yh. Os am gopi o'r rhaglen cysylltwch â Cerys Jones, Treto Isaf (07951324974).

Pob lwc i holl blant a ieuenctid yr ardal sydd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yn Ynys Môn fis nesaf.

# TALOG

**Dawnswyr Talog**

Cyfnod Gŵyl Dewi yw un o amserau prysuraf y flwyddyn i'r dawnswyr. I ddechrau'r dathliadau, cafwyd penwythnos cyfan o weithgareddau. Buom mewn twmpath yn Llandysul ar nos Wener, Chwefror 27ain. Ymlaen wedyn i'r parêd yn nhref Caeryfrddin ar y bore Sadwrn, a chyfle i ddawnsio ar y Clôs Mawr yn y prynhawn – ac oedd, roedd yr haul yn gwenu! Nos Sadwrn, Chwefror 28ain aethpwyd i neuadd Llanwinio i gymryd rhan mewn noson hyfryd i godi arian i Eisteddfod y Garreg Las. Diolch am y croeso cynnes a'r ffest!

Y Sadwrn canlynol, ar Mawrth 7fed, teithiodd criw bach i Gwmtwrch fel rhan o ddathliadau cant oed Neuadd Les y Glowyr yno. Ar yr un dyddiad, roedd nifer eraill o'r aelodau wedi mynd am Fangor i gystadlu gyda C.Ff.I. Capel Iwan yn eu hanner awr o adloniant – llongyfarchiadau mawr iddynt ar ddod i'r brig! Digwyddiad olaf mis Mawrth oedd noson yn Llandudoch, ar Mawrth 21ain, eto i godi arian i'r Eisteddfod Genedlaethol. Mae'n hyfryd cael cefnogi'r bwrlwm sydd yn yr ardal wrth baratoi am yr Eisteddfod.



PEIRIANNEG
MARC JAMES CYF
Marc James Engineering Ltd
GWAITH PEIRIANYDDOL AMAETHYDDOL
GWASANAETH a ATGYWERIO
Y Gweithdy
Llwyncelyn
Clunderwen
SA66 7HL
01437 563930
07831 149237
marcjamesengineering@btconnect.com

SPAR
Llanboidy
Swyddfa Bost
Nwyddau o bob math
Diodydd
Loteri
SWYDDFA POST
Ffôn: 01994 448221

Blodau
Ar gyfer achlysuron arbennig
Meryl James,
Dyffryn Taf,
Pengawse,
Hendygwyn ar Daf.
SA34 0RE.
Ffôn: 01994 240 350
Symudol: 07977 553796
Ebost: meryljames534@btinternet.com

# EFAILWEN

Cynhaliwyd noson Gawl a Thwmpath i ddathlu Gŵyl Dewi yng Nghaffi Beca ddiwedd Chwefror. Noson arbennig o ddawnsio, chwerthin a chymdeithasu er budd Eisteddfod y Garreg Las.
Diolch i Eurfyl am alw ac i Ceirios, Eleri, Rhodri a Mabli am y gerddoriaeth. Diolch hefyd i Robert a'r staff am gawl blasus. Edrychwn ymlaen am y nesa.



**Capel Nebo**
Ar Ddydd Sul, Mawrth 15fed, cynhaliodd Ysgol Sul Nebo yr oedfa Bwnc flynyddol. Y thema eleni oedd 'Eisteddfod y Garreg Las' gyda'r plant a'r bobl ifanc yn rhoi sylw i'r ffaith bod yr Eisteddfod Genedlaethol yn dod i'n hardal ni eleni. Rhoddwyd ychydig o hanes yr Eisteddfod a'i nodweddion unigryw, gan gynnwys yr Orsedd a thraddodiadau'r prif seremoniau.
Pwysleisiwyd hefyd gwerthoedd fel heddwch, parch a chymuned, gan ddangos sut mae'r Eisteddfod yn cysylltu traddodiad, hanes a ffydd â bywyd modern.
Canodd y plant a'r bobl ifanc ddwy gân ac roedd Mrs Jean Jones wedi creu penillion hyfryd iawn i un o'r caneuon, sef 'Steddfod y Garreg Las, gyda'r gytgan yn mynd fel hyn:
"Mae'r 'Steddfod Genedlaethol
Yn dod i'n hardal ni.
Bydd pawb sy'n dod i Lantood
Yn siŵr o sbort a sbri.
Bydd pobol fawr yr Orsedd
Fel bwa ar y bryn
Yn gofyn, 'A oes Heddwch?'
Mewn gwyrdd a glas a gwyn."


Roedd Pwnc Ysgol Sul yr oedolion yn canolbwyntio ar Lythyr Paul at y Galatiaid Pennod 6, adnodau 1-10, sef 'Cariwch Feichiau eich Gilydd'. Yr holwr gwadd eleni oedd y Parchg Gareth Ioan a chafwyd holi craff ganddo. Cafwyd trafodaeth dda ar bwrpas ac ystyr geiriau Paul i'r Galatiaid a phwysigrwydd helpu ein gilydd ar adegau anodd gan ddyfalbarhau i wneud daioni: "Peidiwn â blino ar wneud daioni, oherwydd cawn fedi'r cynhaeaf yn ei amser, dim ond inni beidio â llaesu dwylo". Hoffai aelodau'r capel ddiolch yn fawr i'r Parchg Gareth Ioan am wneud y pwnc mor ddiddorol ac i bawb wnaeth gymryd rhan a'r rhai a ddaeth i gefnogi.



**Yn y llun gwelir Iago, Osian, Mabli, Lewis, Gruff, Hannah, Celt, Efan, Charlie a'r Parchg Gareth Ioan.**

## Hoelion Wyth Beca

**Eisteddofd Blynyddol**
Cynhaliwyd Eisteddfod blynyddol yr Hoelion Wyth yn Nhafarn Ffostrasol ar nos Wener, Mawrth 27ain. Arweinydd y noson oedd John Jones, Ffair Rhos a'r ddau feirniad oedd y gŵr a'r wraig Owen a Dwynwen Llywelyn, Felinfach. Cafwyd cystadlu brwd drwy gydol y nos a cyflwynwyd Tlws Beca i'r gangen â fwyaf o bwyntiau yn y cystadlaethau llwyfan i gangen Cors Caron. Cyflwynwyd Tlws yr Eisteddfod i'r gangen wnaeth ennill y marciau uchaf hefyd i gangen Cors Caron. Enillwyd y gadair am ysgrifennu cerdd ar y testun "Colli neu Bwlch" gan John Jones, Cors Caron a'r goron am ysgrifennu cerdd ddigri ar y testun "Arallgyfeirio" gan Eurfyl Lewis, Beca - llongyfarchiadau mawr i'r ddau ar eu llwyddiant. Cyflwynwyd Tlws cangen Aberporth am y perfformiad gorau ar y llwyfan ( eitem ddigri ) i Calfin Griffiths, cangen Sion Cwilt. Enillwyd tlws coffa Huw Griffiths gan cangen Beca. Cafwyd noson hyfryd yng nghwmni'n gilydd a diolchodd John yn ddiffuant i Owen a Dwynwen am feirniadu, i dafarn Ffostrasol am ganiatáu i ni gynnal yr Eisteddfod yno ac i aelodau'r canghennau am eu cefnogaeth. Roedd hi'n wych cael dod at ein gilydd unwaith yn rhagor a threuliwyd amser hyfryd yn cymdeithasu'n braf ar derfyn yr Eisteddfod.

Wyndham Phillips a'i Feibion
POBYDDION
COUNTY STORES
San Clêr
*Bara a chacennau ffres yn ddyddiol*

Ffôn: 01994 230474


Delwedd
07814 543634
***Salon Harddwch a Chyflenwol***
Crymych
Triniaeth o safon mewn awyrgylch gartrefol gan Nia

**Dyma restr y canlyniadau:-**
**Dweud Jôc**
1. Wyn Evans, Sion Cwilt
2. John Meredith, Cors Caron
3. Brian Edwards, Beca

**Stori a Stumiau**
1. Eurfyl a Nigel, Beca
2. Huw a Daniel, Cors Caron
3. Wmffre ac Iwan, Sion Cwilt

**Sgetsh**
1. Cors Caron
2. Sion Cwilt
3. Beca

**Eitem Ddigri**
1. Sion Cwilt
2. Cors Caron
3. Beca

**Côr**
1. Beca
2. Cors Caron
3. Sion Cwilt

**Brawddeg ar y gair "CARREG LAS"**
1. Eurfyl Lewis, Beca
2. John Jones, Cors Caron
3. Eurfyl Lewis, Beca

**Brysneges ar y lythyren "P"**
1. Eurfyl Lewis, Beca
2. Alun Davies, Cors Caron
3. Peredur Evans, Cors Caron

**Limrig yn cynnwys y llinell " Ar fore dydd Calan eleni".**
1. John Jones, Cors Caron
2. Peredur Evans, Cors Caron
3. Eurfyl Lewis, Beca

**Creu jôc newydd**
1. Eurfyl Lewis, Beca
2. Geraint Morgan, Cors Caron
3. Calfin Griffiths, Sion Cwilt

**Cerdd ar y testun "Colli neu Bwlch"**
1. John Jones, Cors Caron
2. Eurfyl Lewis, Beca
3. John Jones, Cors Caron

**Cerdd ddigri ar y testun "Y Sioe".**
1. Eurfyl Lewis, Beca
2. Geraint Morgan, Cors Caron
3. John Jones, Cors Caron

**Dyma'r sgôr terfynol ;-**
1. Cors Caron 55
2. Beca 50
3. Sion Cwilt 36




**Owen a Dwynwen Llywelyn gydag enillydd y gadair John Jones ac enillydd y goron Eurfyl Lewis.**

**Menter Gorllewin Sir Gâr**

Fe drefnodd y Fenter bore hwyl yn ystod hanner tymor Chwefror yn Neuadd Goffa Hendy-Gwyn ar Daf ac roedd hi'n fore poblogaidd iawn gyda dros 60 yn mynychu, yn blant ac oedolion, i fwynhau gyda'i gilydd. Roedd y Fenter wedi paratoi llawer iawn o grefftau amrywiol yn ogystal â gwledd o gyfleoedd chwarae anniben. Roedd y plant wrth eu bodd yn defnyddio'u dychymyg yn ystod y chwarae anniben tra bod y rhieni'n hapus bod yr annibendod yn aros yn y neuadd fel chi'n gallu gweld yn y llun! Roedd hi'n hyfryd cael mwynhau'r cyfan wrth wrando ar gerddoriaeth Gymraeg i nodi Dydd Miwsig Cymru oedd yn cael ei ddathlu yn ystod mis Chwefror.

Hefyd mae'r Fenter wedi bod yn brysur yn cynnal Cwis Dim Clem gyda 18 ysgol gynradd yn ein hardal a bu cystadlu brwd rhwng yr ysgolion. Da iawn i'r ysgolion i gyd a llongyfarchiadau enfawr i Ysgol Griffith Jones am ddod i'r brig yn rownd y fenter.




**Gweler tîm yr ysgol yn y llun.**

Am fwy o fanylion am weithgareddau'r Fenter, dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol neu ebostiwch Menter Gorllewin Sir Gâr ar ymholiad@mgsg.cymru.

## Eisteddfod Y Garreg Las

Sefyll ar y Sgwâr - Sioe fawr y 'Steddfod wedi gwerthu allan. Does dim tocynnau ar ôl ar gyfer cyngerdd y côr yn y Pafiliwn nos Sadwrn a nos Lun. Bydd y sioe yn dathlu cyfraniad eiconig Richard a Wyn Jones i'r sîn roc Gymraeg drwy ganeuon cofiadwy Ail Symudiad, ac mae'r ymarferion yn mynd yn arbennig o dda gyda thros 250 o drigolion lleol wedi ymaelodi â'r côr. Byddwn yn dilyn yr ymarferion dros y misoedd nesaf ac yn sgwrsio gydag ambell un sy'n rhan o'r sioe. Y Bandana - Ddegawd ar ôl iddyn nhw ymddangos ar lwyfan yr Eisteddfod y tro diwethaf, mae Y Bandana, un o fandiau mwyaf poblogaidd y 2010au yn ôl - am un noson yn unig. Fe fydd y band o ardal y chwareli yng ngogledd orllewin Cymru'n ail-ffurfio'n ar-bennig i berfformio ar Lwyfan y Maes nos Wener, Awst 7fed. Bydd cenhedlaeth o bobl ifanc wrth eu boddau'n cael cyfle i gyd-ganu rhai o glasuron mawr Y Bandana yn un o brif slotiau'r wythnos ar y Llwyfan. Pwy all anghofio clasuron fel Heno yn yr Anglesey, Geiban - a Cân y Tân, wedi'u hysbrydoli gan y goelcerth enwog ym Maes B. Prif leisydd y band yw Gwilym Bowen Rhys, sy'n fwy adnabyddus erbyn heddiw fel cerddor gwerin - ac yn sicr fe fydd Gwilym yn hynod brysur o amgylch y Maes drwy gydol yr wythnos yn perfformio. Peidiwch â cholli'ch cyfle i fachu tocyn bargen gynnar! Mae tocynnau bargen gynnar dal ar gael ar gyfer wythnos yr Eisteddfod ar hyn o bryd. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n elwa o'r cyfle i dalu pris gostyngol - bydd y prisiau'n codi unwaith y bydd y tocynnau cynnar i gyd wedi'u gwerthu. Taith yr Arglwydd Rhys - bydd manylion llawn am y daith yn cael eu cyhoeddi yn ystod mis Mai. Anrhydeddau'r Orsedd - rhyddhau rhain ddechrau mis Mai. Llywydd yr Ŵyl ac Arweinydd Cymru a'r Byd – bydd yr enwau yma'n cael eu cyhoeddi ar ddechrau Mehefin. Llywyddion anrhydeddus a rhestr fer Dysgwyr y Flwyddyn – bydd yr enwau yma'n cael eu cyhoeddi ddiwedd Mehefin. Harddu'r ardal - bydd hwn yn cael ei lawnsio ar Ebrill 24ain ac edrychwn mlaen i weld trigolion dalgylch yr Eisteddfod yn bwrw ati i harddu'r ardal gyfan.




## Gwyl Fel 'Na Mai yn bum mlwydd oed!

Eleni mae hi'n ben blwydd arbennig ar Ŵyl Fel 'Na Mai, ac mi fyddwn yn dathlu mewn steil. Wes, mae 'na barti go arbennig yn eich aros ar faes Frenni Transport, Parc Gwynfryn, Crymych ar ddydd Sadwrn, Mai 2il felly dewch yn llu.

Mae pwyllgor gweithgar Gŵyl Fel 'Na Mai wedi bod yn ddiwyd ers blwyddyn a mwy yn cynllunio, trefnu, paratoi a datblygu nid yn unig holl elfennau amlwg yr Ŵyl sef trefnu leinyp, darparwyr bwyd a diod a gweithgareddau i'r ifanc, ond hefyd y gwaith cefndir anferthol - o ymgeisio am grantiau, ysgrifennu polisïau a chreu a datblygu gwefan ac ati i baratoi'r safle a gosod ffensys, pebyll a thai bach a'r gwaith pwysig o sicrhau ein bod yn cydymffurfio ag anghenion Iechyd a Diogelwch. Hyn oll yn waith gwirfoddol wrth gwrs ac ni fyddai cynnal yr Ŵyl yn bosib heb gymorth gwirfoddol pobl y gymuned sy'n helpu gyda pharatoadau a darpariaethau'r dydd ac hefyd y cydweithio agos sy'n digwydd gyda sefydliadau lleol megis Menter Iaith Sir Benfro, Cylch Meithrin Crymych, Aelwyd yr Urdd Crymych, Cymraeg i Blant a Ffermwyr Ifanc Hermon yn ein darpariaethau ar gyfer ein mynychwyr ifanc.

Yn agor y dathliadau eleni fydd corau Ysgol Bro Preseli ac Ysgol Uwchradd Aberteifi. Mae'r Ŵyl yn flynyddol yn cynnig llwyfan i'n talentau ifanc ac edrychwn ymlaen yn eiddgar i'w croesawu. Hefyd i'w clywed ar lwyfannau'r p'nawn fydd enillwyr Gwobrau Ail Symudiad 2026, Manon Rees Ruault o Abertawe a'r ddeuawd swynol Chwaer, dwy roces leol sy'n prysur ennill eu plwy yn sîn canu ysgafn y de-orllewin ac i ddilyn fydd perfformiad gan yr hudol Dewin, y band a ddaeth i'r brig yng Ngwobrau Richard a Wyn y llynedd, sef grŵp o gerddorion dawnus o ardal y Preselau sydd wedi gwneud cryn argraff ar y sîn yn genedlaethol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Y nesa i'n diddanu ar lwyfan Y Frenni fydd y swynol Lowri Evans, y roces leol, sydd erbyn hyn, yn un o gantoresau mwyaf amlwg y sîn Gymraeg cyfredol, cyn i ni groesawu Aeron Pughe a'r band – dyma'r tro cyntaf i'r canwr a'r cyflwynydd poblogaidd o Faldwyn ymddangos ar lwyfan yr Ŵyl. Fe fydd sesiwn Canu Oci dan arweiniad Dafydd Pantrod a'i fand. Sesiwn o ganu cynulleidfaol, a chyfle i bawb ymuno â Dafydd i ganu'r hen ffefrynnau.

Tra bo'r cerddorion yn ein swyno a'n cyffroi ar lwyfannau Foel Drigarn a'r Frenni, fydd 'na ddigonedd o weithgareddau ar gyfer yr ifanc ar faes yr Ŵyl. Bydd pabell y plant yn cynnig gweithgareddau difyr ac amrywiol gydol y p'nawn, yn cynnwys perfformiad a chyfle i gael llofnod a llun gan Ben Dant, y môr leidr cyfeillgar o'r rhaglen i blant gan S4C, stori a chân gan Lowri Siôn, peintio wynebau, crefftau amrywiol i

ddathlu’r penblwydd, gweithgareddau ymarfer corff, sesiwn gyda’r iwcalelis, modelu balŵns, gwneud cebabs, addurno cacennau, ioga babis a llawer mwy, ac am y tro cyntaf eleni bydd gorsafoedd chwarae synhwyraidd amrywiol yn y babell.
Bydd darpariaeth ar gyfer y bobol ifanc hefyd ac yn arbennig eleni bydd ardal benodol yn y brif adeilad i gymdeithasu, ymlacio a chwarae gemau. Eisoes mae cystadleuaeth newydd ar gyfer yr ieuenctid wedi ei lawnsio ar gyfer hyrwyddo’r Ŵyl, gyda chyfle i fod yn greadigol mewn dwy gystadleuaeth, sef creu postiadau / storïau a chreu fideo / rîls.
Yn ôl yr arfer, fe fydd prydau a byrbrydau ar y maes gyda nifer o gwmnïau arlwyo lleol yn darparu bwydydd amrywiol a blasus ar gyfer ein cynulleidfa. Falle fydd ‘na jeli a threiffl gan ein bod yn dathlu penblwydd. Pwy a ŵyr? Yn sicr fe fydd ‘na ddigon o ddiodydd ar gael yn y bar a hefyd diodydd meddal ar ein stondinau arlwyo.
Wrth i’r haul fynd i’w wely, mi fydd hi’n amser cynnau’r canhwyllau, ac mae ’na res o ganhwyllau disglair iawn ar ein cacen ben-blwydd eleni. Yn dod â pherfformiadau llwyfan Y Frenni i ben fydd y grŵp poblogaidd o Shir Gâr, Dros dro, band sydd wedi datblygu’n rhyfeddol dros y blynyddoedd diwethaf ers cyrraedd y brig yng Ngwobrau Ail Symudiad dair blynedd yn ôl. Yna fe fydd enillwyr albwm y flwyddyn 2025, Ynys yn ein diddanu gyda’u cerddoriaeth fyrlymus, cyn i neb llai na Bwncath, grŵp mwyaf poblogaidd y sîn gyfredol, ymddangos unwaith yn rhagor ar lwyfan yr Ŵyl. Yna’r eisin ar y gacen ac i goroni’r cyfan, croesawn dair o gantoresau mwyaf adnabyddus a phoblogaidd Cymru i’r llwyfan, sef yr anhygoel Eden a fydd yn ein diddanu tan inni chwythu’r gannwyll olaf ar ben-blwydd i’w gofio.

Os ydych chi am docynnau i’n parti arbennig, yna archebwch nawr.
Mae’r manylion ar wefan Gŵyl Fel ‘Na Mai sef Gwyl.felnamai.cymru
Gallwch gael mynediad hefyd drwy sganio’r Côd QR ar bosteri’r Ŵyl.

GŴYL FEL ’NA MAI

## Cefndir Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd

Ers 1922 yn ddi-dor mae’r broses flynyddol ar Fai 18fed o anfon neges ar ran bobl ifanc Cymru i bobl ifanc yng ngweddill y byd wedi bod yn ysgogi ac yn ysbrydoli gweithgarwch dyngarol a rhyngwladol.
Does dim un gwlad arall yn y byd wedi llwyddo i wneud hyn, gan oroesi rhyfeloedd byd a newidiadau sylweddol mewn dulliau cyfathrebu, o Morse Code i radio a'r gwasanaeth bostio, i'r rhwydweithiau digidol heddiw.
Y Parch Gwilym Davies o Gwm Rhymni oedd arloeswr y Neges. Roedd yn weinidog gyda’r Bedyddwyr, yn heddychwr mawr ac yn flaenllaw wrth sefydlu Undeb Cymreig y Cenhedloedd Unedig ac yn ddiweddarach UNESCO. Credai mewn dod â phlant y cenhedloedd ynghyd, ac fe benderfynodd Syr Ifan y dylai’r Urdd ymuno gyda’r fenter o gyhoeddi’r neges er mwyn dileu’r anwybodaeth a’r rhagfarnau a oedd yn bodoli rhwng cenhedloedd y byd.

Darlledwyd y neges am y tro cyntaf ar y BBC World Service ym 1924 ac erbyn heddiw mae’r neges yn ymddangos mewn sawl iaith ar y we, ac yn cyrraedd pedwar ban byd.
Erbyn 1935, roedd 68 o wledydd wedi ymateb. Hyd yn oed yn ystod yr Ail Ryfel Byd, danfonwyd y Neges yn ddi-dor.
Ym 1946 derbyniwyd ymateb gan bobl ifanc Yr Almaen: “Mae’n flynyddoedd ers inni glywed oddi wrth blant Cymru. Mae hi wedi mynd yn ddu arnom ni. Hoffem ni glywed oddi wrthych eto.”
Ym 1948, daeth yr ymateb yma gan blant yn Siapan: "Rydym yn hapus iawn i wybod, wedi blynyddoedd lawer o unigrwydd, eich bod wedi danfon geiriau calonogol o gyfeillgarwch a chariad."
Yn y 50au rhoddwyd cyfrifoldeb i’r Urdd i gyhoeddi Neges Heddwch ac Ewyllys Da yn flynyddol ar ddydd Ewyllys Da, 18 Mai, sef dyddiad y gynhadledd heddwch gyntaf yn yr Hâg ym 1899.
Dros y blynyddoedd mae pynciau'r Neges wedi cynnwys y bom atomig, ffoaduriaid, tlodi, rhyfel, trais a chynhesu byd eang.
Os am weld mwy o ddelweddau hanesyddol ym ymwneud â'r Neges Heddwch, ewch i wefan Casgliad y Werin.

Bydd y neges yn cael ei rhannu gyda’r byd ar ffurf ffilm fer ar 19 Mai 2026

Diolch am eich cefnogaeth
#Heddwch2026

**Neges Heddwch ac Ewyllys Da 2026**

*Pam trafferthu',*
*'Waeth ti heb',*
*'Beth yw'r ots.'*

*Pam trafferthu?*
Gan mai hon yw iaith pen draw'r cof,
iaith fy Mabinogi, iaith sy'n rhan ohonom ni,
iaith sy'n rhoi ystyr i bob darn o dir,
iaith sy'n orffennol, presennol a dyfodol.

*Waeth mi heb?*
Ond dyma iaith cymuned, iaith perthyn, iaith balchder,
iaith crio chwerthin, iaith rantio,
iaith synnwyr a malu awyr,
iaith 'ti ddim ar ben dy hun'.

*Beth yw'r ots?*
Mae ots am iaith
sy'n lliwio ymennydd a llenwi enaid,
sy'n dychmygu'n ehangach, yn garedicach,
sy'n dymchwel waliau, sy'n fyd o bosibiliadau.

Oes, mae ots am iaith
sy'n lond gwlad o obaith.







ARBENIGWR
LAND ROVER
ANNIBYNNOL

MOT

•CEIR •BEICIAU MODUR •FANIAU •4x4

Offer Diagnostig Diweddaraf



Arbennigwyr Land Rover yn San Clêr, Sir Gaerfyrddin

Yr ydym yn arbenigo mewn gwasanaeth, rhannau spâr, diagnosis ac atgyweiro pob model o Land Rover.

Gyda dros 20 mlynedd o brofiad yn gwasanaethu Land Rover, yn cyflogi tîm gwybodus sydd yn gwneud yn siwr fod eich Land Rover chi yn mynd cystal â newydd.

•RHANNAU SPAR •GWASANAETH •TEIARS
•BATRIS•WELDIO •TRACIO PEDAIR OLWYN
•TYMHERU AER

Ffôn: 01994 232960 • Symudol: 07968 868313
Garej Blaenwaun cyf., Heol yr Orsaf, San Clêr. SA33 4BP


# PENBLWYDD HAPUS



Penblwydd hapus iawn i Twm Elias fydd yn dathlu ei benblwydd yn 3 oed ar Mai 18fed. Cariad mawr wrth Mam a Dad, Dadcu Lluest, Dadcu a Mamgu Dinas a'r teulu i gyd.xx



Penblwydd cyntaf hapus i Poppy, merch Harriet a James Mosses, Glandy Cross



# Teyrnged Euros Rhys Evans i John Arfon Jones

Nawr, 'dyw hi ddim yn dasg hawdd cyflwyno teyrnged i John Arfon gan fod cymaint i'w ddweud amdano fe, a tase'n i'n neud cyfiawnder llwyr ag e mi fydden i'n eich cadw chi 'ma am amser llawer rhy hir. Felly crynodeb fydd e o reidrwydd – rhyw 'snapshot' o'i fywyd, ei waith a'i gyfraniad a hynny mewn cymaint o feysydd gwahanol.

Ma' gyda fi gof hollol glir o'r tro cynta y gweles i John Arfon. 1967 o'dd y flwyddyn ac ro'n i yn fy mlwyddyn gynta yn Ysgol Ramadeg Hen dŷ Gwyn. Ro'n i mewn gwers yn yr Art Room yn ca'l Art Lesson gan yr athrawes, Miss Ruby Evans. Mi dda'th y dyn ifanc, dieithr 'ma fewn i'r wers ac fe fuodd e a Miss Evans yn siarad am sbel. Do'dd dim syniad gyda fi pwy o'dd e, ond fe dda'th hyn yn ddigwyddiad wythnosol yn ystod y gwersi. Yn raddol, fe dda'th hi'n amlwg mai'r athro Mathemateg oedd e – ei enw, John Arfon Jones, neu Square Root fel o'dd pawb yn ei alw fe. Felly, pwy odd y John Arfon 'ma a beth oedd mor arbennig amdano fe? Ma' pedwar pen gyda fi!

John y gog triw a ffyddlon yw'r cynta. Northyn o'dd John – cafodd ei eni'n gog ac er iddo fe dreulio'r rhan fwyaf o'i fywyd yn byw yn y de – gog fuodd e tan y diwedd, a'i acen bert e cyn gryfed ar y diwedd ag o'dd hi pan gyrhaeddodd e Hen dŷ Gwyn am y tro cynta ar ddechrau'r chwedegau. Fel ma lot ohonoch chi'n gwbod dwi'n siŵr, brodor o Ddyffryn Conwy o'dd John. Dyffryn hyfryd, hardd, ffrwythlon ar lannau'r afon Conwy, ac ma llun hyfryd o bont enwog Inigo Jones, Llanrwst yn Nyffryn Conwy ar y daflen 'ma. Yn Nhal-y-Cafn yn Nyffryn Conwy, fe dreuliodd John flynyddoedd hapus ei febyd. Fe ddaeth ei fam yn athrawes i Ysgol Gynradd Capel Curig a'i dad yn cadw'r post ar un adeg, ac ro'dd e'n enedigol o Dalybont, Conwy. Roedd ei dad hefyd yn ddiacon yng Nghapel Salem Efail Uchaf, Llanddoged ac ro'dd llais canu "fel taran" gyda fe mae'n debyg.

Aeth John Arfon neu John Post i'r Grammar School yn Llanrwst ac yn ôl un ffrind, Buddug Trwyn Swch, "hen foi bach del efo gwallt cyrliog du oedd o"! Ro'dd gyda fe lawer o ffrindie arbennig a chefnogol, ac un ffrind bore oes oedd David Evans, Belmont neu Dei Bel. Bydde'r ddau mae'n debyg yn arfer cymryd rhan mewn 'fancy dress' a gwisgo bowler hats ac yn ôl Dei, ro'n nhw'n ddyddie llawen, hapus gyda llawer o hwyl diniwed a direidus.

Dwi'n siwr y bydde fe wedi gallu dewis sawl pwnc i arbenigo ynddo gan ei fod e'n ymddiddori mewn geirie, llenyddiaeth, celf, hanes a sawl maes arall – ond Mathemateg aeth â'i fryd e ac i'r Coleg ger y Lli yn Aberystwyth a'th e, gan raddio mewn Mathemateg, ac wedi hynny dilyn cwrs blwyddyn o ymarfer dysgu.

Dwi ddim yn gwbod hyn, ond pan welodd swydd yn cael ei hysbysebu yn Whitland Grammar School, a fydde gyda fe unrhyw syniad ble odd Hen dy Gwyn hyd yn oed! Ond, fe ymgeisiodd, ac fe gafodd gynnig y swydd. Symud, o Lanrwst o Ddyffryn Conwy felly i ddyffryn hyfryd arall, Dyffryn Taf. Ac mi fyddech chi'n meddwl falle mai dyna o'dd dechre diwedd John fel gog. Ond, fel bydde fe'n dweud weithie, 'Dim ffiars o beryg 'sti' – Gog oedd John, a gog fuodd e tan y diwedd.

Symud i Hen dŷ Gwyn; byw mewn tŷ lodjin yng ngwaelod North Road am rai blynyddoedd – yr hewl lle treuliodd e'r rhan fwyaf o'i fywyd ynddi. A dwi'n meddwl fod enw'r hewl mor berthnasol – North Road. John y Northyn, John y gog yn byw yn North Road – perffaith!
Ac mi fuodd John yn ffyddlon iawn i'w deulu yn y North – pan wnaeth ei fam waelu, gwanhau a mynd i gartre gofal yn Llanrwst, ro'dd John mor ffyddlon ag erioed iddi – yn trafaelu'n gyson ar benwythnosau'r holl ffordd i Lanrwst i fod gyda hi. John y gog triw a ffyddlon.

Ond ro'dd mwy o berffeithrwydd yn digwydd yn Hen dŷ Gwyn, sef gweld ei berthynas e â Miss Ruby Evans, y Biology Mistress yn blodeuo. Na, nid jyst taro fewn ar ddamwain o'dd John i wersi Ruby, ond ro'dd pwrpas lot dyfnach. Priodas hyfryd wedyn yn Abergwili a dathliad yn y Llwyn Iorwg Caerfyrddin ar ddiwrnod heulog, hyfryd ar ddiwedd mis Mai – Haul ar y Fodrwy ym mhob ystyr y gair.

Ac yna, fe daflodd John ei hun i fywyd yn Abergwili lle wnaethon nhw setlo yng nghartref Ruby yn Bwlch Cottage. Dod yn weithgar yng Nghapel Ebeneser lle priododd e â Ruby, ei benodi'n ddiacon gan chware rhan flaenllaw iawn ym mywyd y pentref a'r gymuned. Yn ystod y cyfnod 'ma, ro'n i'n byw yng Nghaerfyrddin ac yn trafaelu bob dydd i'r ysgol yn Hen Dŷ Gwyn ac os o'n i wedi colli'r trên neu'r bys yn y bore, o'n i'n gwbod y bydden i'n gallu cael lifft gyda John Arfon a Ruby – ac moi o'dd hynny'n digwydd yn weddol aml!

Felly, John y gog triw a ffyddlon o'dd y pen cynta. Yr ail ben –John Arfon, sef sylfaenydd Perlau Taf. Gŵyl Dewi, 1968 oedd hi ac ro'dd hyd yn oed Whitland Grammar School yn dathlu Gŵyl Dewi. Dwi ddim yn cofio'n iawn shwt na phryd y dechreuodd y peth, ond, fe ddaeth John Arfon, o fod yn athro Mathemateg bach cyffredin i fod yn dipyn o 'pop star' dros nos, a Carol, Mari, Beti, Tecwyn a finne – y pump ohonon ni o Login wrth gwrs. Fe dreulion ni lot fawr o orie yn y ddau gar – car Ruby, VBO 84 a char John Arfon AEY 949B wrth i ni drafaelu ar hyd ac ar led Cymru yn cynnal cyngherddau, gan gynnwys nosweithiau Sêr Cymru yn gyson yn y Majestic yng Nghaernarfon ar nos Sul. Trafaelu nôl a chyrraedd gatre, jyst mewn pryd i fynd i'r ysgol drannoeth. Ond nid cyfeilydd ar yr organ fach yn unig oedd John Arfon – fe gyfansoddodd e eirie i rai o ganeuon – amlyca'r grŵp – addasiadau o'n nhw gan gynnwys *Mynd mae ein rhyddid ni*, a *Câr y rhain i gyd* a byddwn yn ei chlywed hi wedyn. Wel, sawl cyngerdd, bob wythnos – dros dri chant o gyngherddau, ymddangosiadau cyson ar raglenni megis Disc a Dawn, Y Dydd ac yn y blaen, ac ro'n i fel un teulu. Allech chi weud bo ni fel teulu'r Von Trapp yn y Sound of Music – y pump ohonon ni'n blant a John Arfon a Ruby'n gofalu amdanon ni. Ac ma John Arfon wedi cofnodi pob manylyn am Perlau Taf ers y dechrau – pob cyngerdd; copïau o'r posteri a'r tocynnau - ac ma nhw'n gyfrolau sy'n werthfawr iawn.

Ond ro'dd John Arfon yn dipyn o entrepreneur hefyd – yn sylweddoli fod modd i Perlau Taf gynnal nosweithiau llawen cyfan eu hunain, ac felly ddim yn gorfod dibynnu ar gantorion eraill i'n cefnogi ni. Ac fe ffurfiodd e Barti Perlau Taf trwy wahodd Meurig Thomas, Pengawse, William Evans a Roy Llewellyn i ymuno â ni. Ac fe geson ni ddegau ar ddegau o nosweithiau llawen – ac mi o'n nhw'n llawen iawn, ym mhob ystyr y gair.

Ond yn ddiweddarach ro'dd John Arfon yn ddigon doeth a hirben i weld fod popeth yn gorfod newid ac esblygu – fe adawodd Tecwyn i fynd i'r coleg ym Mangor a Mari a Carol i'r coleg yn y Barri ac fe newidiodd Perlau Taf i gynnwys aelodau gwerthfawr newydd. Felly fe ffurfiodd John Arfon Y 'Perlau Taf' newydd sef Mari, Bet a Sian Cilowen, Eirlys Davies, cyfnither Mari, Peter Rees o Groesgoch. John Arfon a finne - ond er y datblygu a'r esblygu, ro'dd John Arfon yn dynn wrth y llyw. Pan ddaeth hi'n amlwg fod dyddie Perlau Taf yn dod i ben, a ffurfio grŵp newydd Beca, a Garry, gŵr Mari'n ymuno yn y pen draw fel drymiwr, ro'dd John Arfon yn ddigon graslon i ildio'r awenau heb unrhyw ddrwgdeimlad o gwbl, ac rodd e'n gefnogol ac yn gefn i Beca ar hyd yr amser.

Sy'n dod â fi at y trydydd pen, sef John Arfon y Mathemategydd.

Fe o'dd fy athro Maths i am ddwy flynedd cyn fy arholiadau 'Lefel O' Mathemateg ac fe ges i brawf personol o shwd o'dd e'n gallu ysbrydoli a 'neud pwnc a o'dd yn ddigon dyrys a diflas yn hynod gyffrous a diddorol, a diolch iddo fe, fe ddes i'n hoff iawn o Fathemateg. Pan 'wnes i ymweld â John yng Nghartref Waungron, ddiwrnod cyn ei farwolaeth e, yr hyn o'n i'n ei glywed wedi mynd trwy ddrws ffrynt y Cartref, ac wrth fynd i'r Lolfa oedd llais John Arfon yn pregethu: 'The area of a rectangle or square is calculated by multiplying its length by its width; Measuring volume is the depth multiplied by the surface area. Do you get that?' A dyna lle 'roedd John, wrth ei fodd yn rhoi help mathemategol i rai o staff y cartref wrth iddyn nhw baratoi am gymhwyster mathemategol proffesiynol. John yr athro maths hyd y diwedd un.

Ac ro'dd y ffaith ei fod e'n Fathemategydd yn ei 'neud yn berson rhesymegol iawn hefyd – ro'dd e'n logical iawn yn deall patrymau – patrymau rhifyddol a hefyd patrymau geiriol, a sdim dowt gyda fi fod ei allu mathemategol a'i allu cynhenid e wedi ei alluogi i gwblhau croeseiriau'r Times (a'r Telegraph os dwi'n iawn) yn ddidrafferth bob dydd. Ac yna ei ymddangosiadau ar raglen ITV Countdown, pan wnaeth e ryfeddu Carol Voderman hyd yn oed, gyda'i allu dewinol gyda rhifau a geiriau.

Er nad e'dd e'n cyfaddef i neb, fe fydde'n i ca'l llythyr oddi wrtho fe bob dau fis gyda Cwis y Faner Newydd ynddo, a fi oedd yn cael y jobyn o drio datrys y cwestiynau cerddorol a'r posau sol-ffa. On'd oedd e'n arfer dweud – 'sdim eisie i ti ddeud wrth neb 'sti bo ti'n helpu fi.' Rodd John yn gystadleuol iawn a sori Elonwy, ond mi o'dd e'n dweud wrtha'i weithie, 'dwi eisio maeddu'r Elonwy 'na mis yma 'sti!"

Cil Haul

Sy'n dod â fi at y pen ola, sef pennod Cil Haul, cartref hyfryd John Arfon a Ruby yn North Road, Hen dŷ Gwyn. Rodd y ddau yn dwlu ar y tŷ ac yn ymfalchïo yn y ffaith mai Cil Haul oedd y tŷ lle ganed y cyfansoddwr William Mathias. Ro'dd e hefyd yn ymfalchïo yn y ffaith bo' fi wedi mynd i Fangor i astudio Cerddoriaeth gyda William Mathias ac ma'r darn clywson ni ar y dechre, sef y O Nata Lux gan Mathias yn clymu'n berffaith ag enw'r tŷ, Cil Haul gan taw ystyr O Nata Lux yw ffynhonnell pob goleuni.

Ac mi o'dd Cil Haul yn llawn goleuni – yn ffynhonnell goleuni ac roedd Ruby a John Arfon yn gwbod yn iawn shwd o'dd rhannu'r goleuni 'na gyda phobl eraill gyda'u sirioldeb heintus, eu hiwmor, eu gweithgarwch, eu caredigrwydd a'u cariad. Ac mae 'na rywbeth sy'n eitha arwyddocaol hefyd yn y ffaith fod yr haul yn gwenu mor hyfryd a disglair heddi.

Rodd John yn hoff iawn o'r ardd ac mi fydde fe'n cymryd dileit mawr yn dangos yr ardd yn Cil Haul i ymwelwyr a chwyno os oedd y tywydd yn rhy sych neu'n rhy wlyb, yn rhy dwym neu'n rhy oer. Rodd popeth yn dwt a thaclus – ro'dd popeth yn ei le yn yr ardd.

Yn ystod y cyfnod yma yn Cil Haul fe 'nath e daflu ei hun fewn i weithgareddau'r ardal gan gynnwys Yr Hoelion Wyth ac yn bennaf, Y Cardi Bach. Mae sawl person wedi dweud wrtha'i mai John Arfon wnaeth achub y Cardi Bach trwy ddechrau'r 'Clwb Cant,' a chael mil o aelodau; trefnu cyngerdd Blynyddol i'r Cardi Bach wedyn gydag artistiaid enwog fel Trebor Edwards, a llu o bethe eraill. A faint ohonoch chi tybed o'dd yn ymddiddori yn y cystadlaethau misol y buodd e'n gyfrifol amdanyn nhw tan iddo fe roi'r gore iddi yn niwedd 2025? Lot ohonon ni dwi'n siŵr.

Wedi iddo fe ymddeol i Cil Haul, mi fydde amser gyda fe i ddilyn ei ddileit mewn chwaraeon – rodd e'n chware golff i safon uchel ac oherwydd hynny, fe gafodd gyfle i chware ar rai o'r cyrsiau golff gorau - St Andrews yn yr Alban, y Royal ym Mhorthcawl a sawl maes safonol arall. Fe fuodd e'n gefnogwr pêl-droed brwd yr Elyrch ar hyd ei oes ac wrth ei fodd ar y terasau ar y Fetsh yn gweiddi, yn ei acen gog siŵr o fod, er mwyn annog a hybu ei hoff dîm ymlaen.

Fe bylodd ychydig o'r heulwen a'r goleuni o Gil Haul pan gollodd e ei annwyl Ruby yn 2019. Ond, er yr hiraeth a'r golled, wnaeth e ddim digalonni'n llwyr na cholli ysbryd – fe ailgydiodd yn ei fywyd yn raddol bach, a byw bywyd llawn unwaith yn rhagor.

Rhan o'r ail-gydio yn ei fywyd heb Ruby o'dd mynd ar dripiau bws i lefydd pell ac agos, ond ro'dd yr atynfa i fynd nôl i Ddyffryn Conwy a Llandudno 'n gryf iawn. Ro'dd e wrth ei fodd ac yn 'neud ffrindiau mor rhwydd. Bob nos yn y gwestai yn ystod y tripiau 'ma, mae'n debyg mai'r uchafbwynt fydde gweld John Arfon yn mynd mas i ddawnsio a chael hwyl yn neud y Jive, y Foxtrot a'r Viennese Waltz. O'dd mi o'dd e'n gwbod shwd o'dd joio! Ond ar un o'r tripiau bws diweddara' i Landudno, do'dd pobl ddim cweit yn deall pam fod gyda fe ddau suitcase mawr. Wel – fe gafodd pawb w'bod yn weddol glou fod un cês yn cynnwys ei ddillad a'r llall yn llawn antiques yr o'dd e am drïo'u gwerthu mewn siop Antiques arbenigol yn Llandudno! John Arfon yr entrepreneur!

Ac fe fuodd e'n siriol a phositif trwy ei salwch ond roedd colli rhan fawr o'i olwg yn ergyd fawr iddo fe. Ac ro'dd e mor ddiolchgar am yr help aruthrol a'r caredigrwydd anhygoel a brofodd e gan Elonwy a Gareth, a Meinir a Tony. Rodd e hefyd yn ddyledus iawn i Margaret, cyfnither Ruby o Abergwili. Heb os, hebddyn nhw, 'fydde John Arfon ddim wedi gallu aros yng Nghil Haul – ro'dd e'n gwbod hynny, ac yn fythol ddiolchgar iddyn nhw am bopeth wnaethon nhw drosto fe, a dwi'n siŵr fod sawl cymydog a ffrind arall wedi ei gefnogi mewn sawl dull a modd.

Mi allen i fynd mla'n a sôn am gymaint o bethe eraill a dwi'n flin os dwi wedi gadel rhai pethe, rhai sefyllfaoedd a rhai pobl allweddol mas, ond fe 'nes i rybuddio mai rhyw fath o 'snapshot' fydde hwn.

Un o hoff ddramáu Ruby oedd 'Under Milk Wood', Dylan Thomas. Rodd Ruby'n actores wych, ac fe fuodd hi'n actio mewn sawl cynhyrchiad ohono yn Saesneg, a hefyd yn y fersiwn Gymraeg gan T. James Jones.

Dwi'n cloi gyda geirie addas James Jones o'r ddrama Dan y Wenallt, sy'n cyplysu John Arfon, Ruby a'r haul o 'Gil Haul', trwy ddyfynnu geirie a oedd yn golygu lot fawr i'r ddau ohonyn nhw - geirie o weddi'r Parchg. Eli Jenkins:

Rho undydd eto Arglwydd da,
A'th fendith hwyrol, caniatâ,
Ac wrth yr haul, sy'n mynd am sbel,
Cawn ddweud 'Nos da', heb ddweud 'Ffarwel'.

Y CARDI BACH, BACH
Papur Bro Dyffryn Taf
CARIAD O BETH CARDI BACH

# YSGOL BRYNCONIN

**Eisteddfod Gylch**
Llongyfarchiadau enfawr i bawb o Ysgol Brynconin am gystadlu mor dda yn Eisteddfod yr Urdd Cylch Clunderwen ar ddydd Mawrth, Mawrth 10fed. Roedd pawb wedi ymdrechu'n galed ac wedi cystadlu i safon uchel. Rydym yn browd iawn o waith caled y plant. Llongyfarchiadau i'r canlynol am ennill gwobrau:
Cyntaf:
Loti Williams – Unawd Bl.2 ac Iau
Loti Williams – Llefaru Bl.2 ac Iau
Ffion Beynon – Llefaru Bl.5 a 6
Parti Llefaru
Perfformio Golygfa
Ail:
Angelica Pearce – Unawd Bl.5 a 6
Heti Davies – Llefaru Bl.5 a 6
Magi John – Llefaru Bl.3 a 4
Trydydd
Heti Davies – Unawd Bl.5 a 6
Alun Morgans – Llefaru Bl.2 ac Iau
April Tapping – Llefaru Bl.3 a 4



**Perfformio i Ferched y Wawr yng Nghaffi Beca, Efailwen**
Diolch i'r criw o blant a wnaeth berfformio i gangen Merched y Wawr Beca yng Nghaffi Beca, Efailwen ar brynhawn Iau, Mawrth 12fed. Braf yw cael perfformio a bod yn rhan o'r gymuned.
**Diwrnod Cenedlaethol Cysgu – 13.3.26**
Roedd hi'n Ddiwrnod Cenedlaethol Cysgu ar ddydd Gwener, Mawrth 13eg ac fe wnaethon ni fel Ysgol gynnal nifer o weithgareddau yn ystod y dydd i ddysgu pa mor bwysig yw hi i gael nosweth dda o gwsg er mwyn cadw'r corff yn iach. Llynedd fe wnaeth y plant gwblhau holiadur iechyd a lles ac fe nododd sawl un eu bod yn cael trafferth i gysgu erbyn nos a phwrpas y diwrnod oedd i rannu gwybodaeth am bwysigrwydd noson dda o gwsg. Mae aelodau Cabinet Iechyd a Lles wrthi yn paratoi pamffled i rieni a phlant gyda gwybodaeth ar bwysigrwydd cwsg da.



**Llwyddo yn y Valero**
Da iawn i bawb oedd wedi cystadlu yng nghystadleuaeth cerddorol Valero ar ddydd Sadwrn, Mawrth 14eg. Llongyfarchiadau enfawr i Alun, Ash, Aurora, Elsie, Heti a Tomos am lwyddo yn eu campau unigol ac yn yr ensemble. Da iawn chi!
**Gweithdy gyda Bardd Plant Cymru**
Braf oedd cael croesawu Sion Thomas Owen, sef Bardd Plant Cymru i'r Ysgol ar brynhawn Mawrth, Mawrth 17eg. Cynhaliodd weithdy llenyddol gyda phlant o ddosbarth Rhuddem. Roeddem yn lwcus iawn i gael y gweithdy yma a chael ymweliad gan fardd plant Cymru.

**Eisteddfod Sir yr Urdd**
Llongyfarchiadau enfawr i bawb o Ysgol Brynconin am gystadlu mor dda yn Eisteddfod yr Urdd Sir Benfro ar ddydd Sadwrn, Mawrth 21ain. Roedd pawb wedi ymdrechu'n galed ac wedi cystadlu i safon uchel. Rydym yn browd iawn o waith caled y plant. Llongyfarchiadau i'r canlynol am ennill gwobrau; cyntaf i'r Gân Actol ac i Ash, Elisabeth, Ffion ac Heti am berfformio golygfa. Da iawn i aelodau parti llefaru am ddod yn ail ac i Loti a Ffion am gystadlu mor wych. Dymunwn yn dda nawr i Tomos, yr ensemble offerynnol, criw perfformiad golygfa a'r Gân Actol wrth iddynt gynrychioli Sir Benfro yn y Genedlaethol ym mis Mai.



**Gwasnaeth Diwedd Tymor**
Braf oedd cael cynnal gwasanaeth diwedd tymor ar brynhawn Mercher, Mawrth 25ain i ddathlu gwaith da Ysgol Brynconin. Llongyfarchiadau enfawr i Ffion Beynon ac Heti Davies am ennill Tlws Clwb Ffermwyr Ifanc Clunderwen am ddangos ymdrech a dyfalbarhad dros y tymor.

## YSGOL HAFODWENOG

Mae wedi bod yn gyfnod aruthrol o brysur i Ysgol Hafodwenog dros y misoedd diwethaf gyda'r disgyblion, y staff a'r gymuned ehangach.
Cafwyd noson Bingo ar ddechrau'r flwyddyn gyda'r CRhA. Noson hwylus iawn o godi arian a diolch iddynt am y trefniadau ac am eu cefnogaeth barhaus i'r ysgol.
Cafodd y disgyblion gyfle i ymlacio gydag ymweliad Ci Therapi a ddaeth i ymweld â'r ysgol yn ystod eu hamser darllen ac fe gafwyd disgo tawel i ddathlu Dydd Miwsig Cymru. Diolch i Menter Gorllewin Sir Gâr am yr offer.
Cafwyd sesiynau yn sôn am ddiogelwch ar-lein gyda PC Cath a sesiwn gyda Elinor Goldsmith o'r Frigâd Dân a fu hefyd yn sôn am ddiogelwch a chodi ymwybyddiaeth y disgyblion am y peryglon. Sesiynau addysgiadol iawn.
Bu disgyblion Bl 6 yn brysur iawn wrth gymryd rhan yn Nghwis Dim Clem y Fenter a mynychu sesiwn hyfforddiant gan eu bod yn Lysgenhadon Chwaraeon yn yr ysgol.
Pwyslais yr Wythnos Iechyd Meddwl eleni oedd pwysigrwydd cwsg. Cafodd y disgyblion gyfleoedd i greu recordiadau ohonynt yn darllen straeon cyn cysgu sydd bellach ar gael i'r disgyblion ar draws yr ysgol, ac fe gafwyd diwrnod hwylus iawn wrth i bawb ddod i'r ysgol yn eu pyjamas.
Cafwyd dau ymweliad diwylliannol gyda'r plant yn mynychu taith i Amgueddfa Wlân Cymru yn Nhrefach Felindre i glywed am hanes y ffatri a'r diwydiant gwlân. Daeth Daniel O'Callaghan i'r ysgol hefyd i sôn am yr enwog T Llew Jones ar ffurf drama-cynhyrchiad Mewn Cymeriad.
Gan taw'r thema ar gyfer y tymor oedd 'O'r Fferm i'r Fforc', cafwyd cyfle i bwysleisio ar yr ymagwedd o 'O'r hen lwybrau i'r fforc fodern'. Yn hyn o beth, cafwyd cyfle i weld sut mae amaethu a chefn gwlad wedi datblygu ar hyd y degawdau. Diolch felly i gwmni T Alun Jones am ddod â thractorau o wahanol adegau (a Mr Tony Dufty) ac i Williams o'r cwmni am ddod i roi ychydig o hanes. Yn yr un modd, ymwelodd Mark Evans o gwmni arwerthiant Evans Bros â'r ysgol i sôn am hanes y farchnad a'r hen arfer o'r porthmyn yn cerdded stoc i'r farchnad ar hyd yr hen lonydd.



Er mwyn cael teimlad gwirioneddol o waith y porthmyn, cafwyd cyfle i gerdded ar hen lwybr ger pentref Henfeddau. Cafwyd hefyd gyfle i ymweld â fferm Fro Wen i weld cynhyrchiant wyau.



Ynghanol y prysurdeb o ddysgu, bu rhan helaeth o'r disgyblion yn gweithio'n ddiwyd mewn ymarferion tuag at Eisteddfod yr Ysgol ac Eisteddfod yr Urdd. Braf oedd gweld cynifer o'n disgyblion yn herio'u hunain ac yn dangos eu doniau ar lwyfan yr ysgol ac ar lwyfan y cylch a'r sir. Braf yw nodi y bydd nifer o ddisgyblion yr Ysgol yn teithio i Ynys Môn ym mis Mai. Diolch i bob un a fu'n hyfforddi a chynorthwyo gan roi cyfleoedd amhrisiadwy i'r disgyblion.

## YSGOL BECA

**Eisteddfod Dawns**
Llongyfarchiadau mawr i River, Lleucu, Beau, Hunni-Belle, Celyn a Lucy am gystadlu yn Eisteddfod Dawns Urdd Sir Benfro ym Mro Gwaun. Diolch o galon i Mrs Williams a Miss Morris am yr holl ymarfer ac am y rhieni am eich cefnogaeth barhaus! Da iawn!



**Gweithdy Barddoniaeth- Elain Roberts**
Diolch i Elain Roberts am gynnal gweithdy barddoniaeth bendigedig fel rhan o brosiect Bardd Plant Cymru gyda phlant blwyddyn 5 a 6 ar Mawrth 18fed. Fe fydd barddoniaeth y disgyblion yn cael ei gyhoeddi mewn llyfr er mwyn dathlu Eisteddfod y Garreg Las! Diolch Elain!



**Eisteddfod yr Urdd**
Anrhydedd oedd cael gwylio disgyblion Ysgol Beca yn cystadlu yn yr Eisteddfod Cylch a Sir yn ddiweddar. Rydym ni mor falch o bob un wnaeth berfformio o flaen y gynulleidfa. Da iawn i Beau, Hunni-belle, Ela, Forrest, Osian, Hannah, Kara, Saoirse a'r Parti Unsain a gymerodd ran yn yr Eisteddfod Gylch yn Neuadd Maenclochog. Llongyfarchiadau mawr i'r Parti Unsain a wnaeth ennill yn Eisteddfod Sir Benfro ar ddydd Sadwrn, Mawrth 21ain. Pob lwc i chi wrth gystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Ynys Môn. Diolch enfawr i'r rhieni am eich cefnogaeth. Diolch hefyd i Helen Thomas am baratoi'r disgyblion.



**Gala Nofio bl. 5 a 6**
Llongyfarchiadau mawr i ddisgyblion 5 a 6 wnaeth gymryd rhan yng Ngala nofio Crymych ar Mawrth 11eg ym mhwll nofio Canolfan Hamdden Crymych. Llwyddiant yn ras strôc frest i fechgyn blwyddyn 6 a thrydydd i fechgyn 5 a 6 yn y medli. Da iawn i chi gyd!



**Pasg**
I ddathlu'r Pasg, mae'r disgyblion wedi cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau i ddysgu mwy am ystyr a thraddodiadau'r ŵyl. Buont yn mwynhau helfa wyau Pasg cyffrous, yn ogystal â chreu cardiau arbennig i'w hanfon at eu rhieni.

CYFRES Wenfro

# Ffŵl Ebrill

**CYSTADLEUAETH Cyfle i un darllenydd lwcus ennill llyfr o gyfres Wenfro**

Mae Bwgi-bo yn dipyn o dderyn ac ar y cyntaf o Ebrill, chwaraeodd dric ar Glanwen y ddafad gan ddweud bod y defaid i gyd wedi dianc o'r cae ac yn pori yng ngardd Iet-wen.

**Faint o ddefaid welwch chi yn pori yn yr ardd?**




**Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 28/05/26**

**Ateb Cystadleuaeth Cawl Mam-gu:**

Moron, winwns, swêds, tato, cennin, persli a halen oedd cynhwysion cawl arbennig Mam-gu Iet-wen.

Mae Wenfro yn gynllun addysgol cynhwysfawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Cyhoeddir y gyfres gan Gomer/Atebol. **www.wenfro.cymru**

® y testun a'r lluniau: Llinos Mair © 2026

**Bydd enw enillydd y gystadleuaeth yn cael ei gyhoeddi cyn hir.**



# Bysiau Cwm Taf


*Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol*





## TEITHIAU DYDD 2026


| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dydd Mawrth | 28ain | Ebrill | ABERYSTWYTH a Pysgod a Sglodion ar y ffordd adre (bwyd ddim yn y pris) | £25.00 |
| Dydd Mawrth | 5ed | Mai | AMGUEDDFA WERIN CYMRU SAIN FFAGAN | £22.00 |
| Dydd Sadwrn | 9fed | Mai | MALVERN Gŵyl Wanwyn yr RHS (Tocyn yn gynwysiedig) | £55.00 |
| Dydd Mawrth | 19eg | Mai | HENFFORDD (HEREFORD) a Siop Fferm OAKCHURCH | £32.00 |
| Dydd Mawrth | 26ain | Mai | Diwrnod o Siopa yn McARTHUR GLEN, PENYBONT ar OGWR | £20.00 |
| Dydd Mercher | 10fed | Mehef | HARBWR BRYSTE yn llawn Siopau, Bwytai a Bariau ger y môr | £32.00 |
| Dydd Mawrth | 16eg | Mehef | Take That yn Chwarae yng NGHAERDYDD (Bws yn unig) | £25.00 |
| Dydd Mawrth | 23ain | Mehef | DIWRNOD MARCHNAD Y FENNI | £25.00 |
| Dydd Sadwrn | 27ain | Mehef | GWYL FWYD a DIOD - BAE CAERDYDD | £22.00 |
| Dydd Sul | 28ain | Mehef | Metallica: M72 ar Daith - CAERDYDD (Bws yn Unig) | £25.00 |
| Dydd Mawrth | 30ain | Mehef | LEWIS CAPALDI yn CAERDYDD - Blackweir (Bws yn Unig) | £25.00 |
| Dydd Mercher | 1af | Gorff | LEWIS CAPALDI yn CAERDYDD - Blackweir (Bws yn Unig) | £25.00 |
| Dydd Iau 9fed | Gorff | GERDDI CLYNE a MWMBWLS | | £20.00 |
| Dydd Mercher | 15fed | Gorff | ?????????? TAITH DDIRGEL ????????? | £40.00 |
| Dydd Mawrth | 21ain | Gorff | Blasu Gin a Tê Prynhawn yn CASTELL HENSOL | £75.00 |
| Dydd Mercher | 22ain | Gorff | SIOE AMAETHYDDOL FRENHINOL CYMRU LLANELWEDD(Bws yn unig) | £25.00 |
| Dydd Mawrth | 28ain | Gorff | TAITH yr HAF i BAE CAERDYDD | £22.00 |
| Dydd Mawrth | 4ydd | Awst | ABERYSTWYTH a Pysgod a Sglodion ar y ffordd adre (bwyd ddim yn y pris) | £25.00 |
| Dydd Mawrth | 11fed | Awst | Canolfan Arddio Yr Hên Orsaf Drênnau a ABERHONDDU | £28.00 |
| Dydd Mawrth | 18fed | Awst | DIWRNOD MARCHNAD Y FENNI | £25.00 |
| Dydd Gwener | 21ain | Awst | Diwrnod y Merched yn FFOSLAS (Bwffet Prosecco ar y ffordd) | £65.00 |
| Dydd Mawrth | 25ain | Awst | HARBWR BRYSTE ac ymweld â Llong SS Great Britain | £50.00 |
| Dydd Mawrth | 8fed | Medi | TREFYNWY a Chanolfan Siopa LABELS yn Rhosan ar Wy | £30.00 |
| Dydd Mawrth | 29ain | Medi | Diwrnod o Siopa yn TRAGO MILLS MERTHYR TUDFUL | £22.00 |
| Dydd Mawrth | 6ed | Hydref | DIWRNOD yn DINAS Hynafol Hyfryd CAERFADDON | £32.00 |
| Dydd Mercher | 14eg | Hydref | AMGUEDDFA WERIN CYMRU SAIN FFAGAN | £22.00 |
| Dydd Mawrth | 27ain | Hydref | Taith i DDYFFRYN ELAN gyda BWYD yn y FFOSTRASOL ARMS | £50.00 |
| Dydd Mercher | 4ydd | Tach | MARCHNAD Y FENNI a Stondinnau Bric a Brac | £25.00 |
| Dydd Mawrth | 10fed | Tach | Canolfan CRIBBS CAUSEWAY BRYSTE | £32.00 |
| Dydd Mercher | 18fed | Tach | Diwrnod o Siopa yn McARTHUR GLEN, PENYBONT ar OGWR | £20.00 |
| Dydd Mawrth | 24ain | Tach | FFAIR AEAF FRENHINOL CYMRU yn LLANELWEDD | £25.00 |
| Dydd Gwener | 1af | Rhag | Siopa yn GLOUCESTER QUAYS | £32.00 |
| Dydd Mawrth | 8fed | Rhag | Siopa NADOLIG yng Nhanolfan Garddio Yr Hên Orsaf Drennau | £25.00 |
| Dydd Iau 10fed | Rhag | CINIO NADOLIG Yng NGHWESTY'r CLIFF, GWBERT, ABERTEIFI | | £70.00 |
| Dydd Llun | 14eg | Rhag | SIOPA NADOLIG Yn DINAS Hynafol CAERFADDON | £32.00 |
| Dydd Mawrth | 15fed | Rhag | SIOPA NADOLIG yn Prif Ddinas CYMRU - CAERDYDD | £22.00 |


**Shwldimwl.cymru**



CRYSAU CYMREIG
AR GAEL DRWY'R POST
07966 423513





**J. B. OWEN**

LLOGI PEIRIANNAU

*Golygfa*
*Llandissilio*

Ffôn: 01437 563693
07966 549623

**Gareth Glanville**

SAER COED



Llwynpinner Fach
Hendygwyn ar Daf
SA34 0RA

Ffôn: 01994 240245
Symudol: 07779 112192

*Gwaith safonol - cysylltwch am bris*



# Bysiau Cwm Taf

## Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol



## TEITHIAU 2026

| | | | |
|---|---|---|---|
| Maw 7fed Ebrill | ???? TAITH DDIRGEL MIS EBRILL ???? | £595 | 5 Diwrnod |
| Gwe 10fed Ebrill | TORQUAY, TOTNES a tê a chacen ar daith Cwch ar yr Afon Exe | £385 | 4 Diwrnod |
| Sad 11eg Ebrill | MAMMA MIA! THE PARTY - Llundain | £430 | 3 Diwrnod |
| Mer 15fed Ebrill | Blas o Gymru yng Nghwesty'r TYNEDALE, LLANDUDNO | £590 | 5 Diwrnod |
| Sul 19eg Ebrill | (Newydd) CHELTENHAM, TEWKESBURY a'r COTSWOLDS | £595 | 5 Diwrnod |
| Gwe 24ain Ebrill | (Newydd) PASHLEY MANOR - "Tulip Festival" | £285 | 3 Diwrnod |
| Llun 27ain Ebrill | (Newydd) BOURNEMOUTH a'i Chelf Ysblennydd | £515 | 5 Diwrnod |
| Sul 3ydd Mai | Teithiau amrywiol o amgylch Ynys JERSEY | £865 | 7 Diwrnod |
| Sad 9fed Mai | (Newydd) ALPAU FFRAINC, CHAMONIX a Llyn ANNECY | £1,285 | 8 Diwrnod |
| Llun 11eg Mai | Rheilffyrdd Rhamantus LLANBERIS a GOGLEDD CYMRU | £595 | 5 Diwrnod |
| Sul 17eg Mai | IWERDDON Bantry ac Arfordir y Gulf Stream | £745 | 6 Diwrnod |
| Gwe 22ain Mai | SIOE FLODAU CHELSEA | £465 | 3 Diwrnod |
| Sul 24ain Mai | Agêr a Mordaith Afon yn DYFNAINT a GWLAD YR HAF | £575 | 5 Diwrnod |
| Gwe 29ain Mai | WETHERSPOONS WANDERER | £285 | 3 Diwrnod |
| Llun 1af Mehefin | (Newydd) Rhamant YNYS WYTH | £620 | 5 Diwrnod |
| Sul 7fed Mehefin | (Newydd) Teithiau hudol o amgylch Trefi a Gerddi yr AFON TAFWYS | £595 | 5 Diwrnod |
| Sul 14eg Mehefin | (Newydd) LES MISERABLES - BIRMINGHAM | £240 | 2 Diwrnod |
| Sul 14eg Mehefin | (Newydd) Llwybrau Brenhinol yr Alban, Balmoral, Glamis a Chwedlau'r Ucheldiroedd | £870 | 7 Diwrnod |
| Llun 22ain Mehefin | HARROGATE & DYFFRYNNOEDD SWYDD EFROG | £585 | 5 Diwrnod |
| Gwe 26ain Mehefin | ??? TAITH DDIRGEL MEHEFIN ??? | £575 | 4 Diwrnod |
| Maw 30ain Mehefin | (Newydd) Golygfeydd Mynyddoedd y SWISDIR a ST ANTON | £1,575 | 8 Diwrnod |
| Sul 5ed Gorff | (Newydd) Y Gorau o OGLEDD IWERDDON | £899 | 6 Diwrnod |
| Gwe 10fed Gorff | (Newydd) SIOE FLODAU BADMINTON | £365 | 3 Diwrnod |
| Sul 12fed Gorff | Agêr a Mordaith LLYNOEDD GOGLEDD LLOEGR | £685 | 5 Diwrnod |
| Sul 19eg Gorff | LLANDUDNO a phrydferthwch GOGLEDD CYMRU | £615 | 5 Diwrnod |
| Gwe 24ain Gorff | (Newydd) CAERWRANGON a DYFFRYN HAFREN | £465 | 4 Diwrnod |
| Llun 27ain Gorff | ??? TAITH DDIRGEL 'CYFRINACHOL' YR HAF ??? | £610 | 5 Diwrnod |
| Sul 2ail Awst | (Newydd) Cyfrinachau cudd SWYDD BEDFORD a thu hwnt | £595 | 5 Diwrnod |
| Llun 10fed Awst | (Newydd) BORDEAUX, DORDOGNE a mordaith afon ARFORDIR YR IWERYDD | £2,100 | 9 Diwrnod |
| Llun 10fed Awst | Chwilota'r PENNINES | £530 | 5 Diwrnod |
| Sad 16eg Awst | Uchafbwyntiau PLYMOUTH, FALMOUTH a YNYSOEDD De Orllewin Lloegr | £855 | 6 Diwrnod |
| Llun 24ain Awst | LLANDUDNO a RHEILFFORDD YR WYDDFA | £655 | 5 Diwrnod |
| Gwe 28ain Awst | (Newydd) Trysorau cudd YNYS WYTH | £705 | 6 Diwrnod |
| Sad 29ain Awst | PADDINGTON Y Sioe Llundain | £235 | 2 Diwrnod |
| Llun 31ain Awst | SWYDD EFROG - 'Fantastic Beasts & Seaside Treats' | £610 | 5 Diwrnod |
| Sul 6ed Medi | (Newydd) CAEREDIN, STIRLING a'r 'Firth of Forth' | £755 | 6 Diwrnod |
| Llun 14eg Medi | GOLEUANNAU BLACKPOOL ILLUMINATIONS | £415 | 5 Diwrnod |
| Llun 14eg Medi | AGÊR a MORDAITH NORFOLK & SANDRINGHAM | £615 | 5 Diwrnod |
| Sad 19eg Medi | (Newydd) ANDRÉ RIEU yn fyw o Birmingham | £335 | 2 Diwrnod |
| Sul 20fed Medi | IWERDDON, Clogwyni ac Arfordir DONEGAL | £865 | 7 Diwrnod |

**Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau**

**Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion - ffoniwch a gadewch y gweddill i ni**

**01994 240908 / www.tafvalleycoaches.co.uk**

# CHWARAEON

## Clwb Rygbi Sanclêr

Yn gyntaf i Waunarlwydd ar Mawrth 21ain a ddenodd dorf fawr yn yr heulwen gyda'r clwb yn cynnal Diwrnod y Merched. Yn ôl y disgwyl, roedd yn gystadleuaeth anodd gyda'r Seintiau yn cymryd mantais yn yr hanner cyntaf 17 - 8 ar ôl ceisiau gan y capten Tomos Williams, Dafydd Rees ac Oli Bujega, un wedi'i drosi gan Che Thomas. Yna ceisiau pellach ar ôl yr egwyl gan Dafydd Rees ac Ianto Davies gydag un trosiad gan Che Thomas i sicrhau canlyniad da i'r Seintiau 29 - 22 yn erbyn tîm penderfynol Waunarlwydd.

Ymlaen wedyn i'r darbi lleol yn Nhalacharn mewn gêm hir ddisgwyliedig. Gyda'r tywydd yn braf ond yn wyntog, chwaraeodd y Seintiau gyda'r gwynt yn yr hanner cyntaf gan chwarae yn dda i adeiladu mantais o 0 - 14 erbyn hanner amser gyda cheisiau gan Mark Harries ac Oli Bujega. Sgoriodd Oli dau gais arall yn yr ail hanner gyda rhediadau penderfynol rhagorol ar ôl i Dalacharn daro'n ôl ar ôl yr egwyl gyda 2 gais cyflym. Ar 14 - 14 gyda phopeth i chwarae amdano, cadwodd Sanclêr y bêl mewn llaw er bod y gwynt yn eu herbyn ac amddiffynnon nhw'n dda heb y bêl gyda buddugoliaeth haeddiannol o 14 - 26 gyda 3 throsiad Che Thomas. Bellach yn 6ed yn y tabl gyda 3 gêm i'w chwarae - Porth Tywyn oddi cartref ar Ebrill 11eg, Dinbych y Pysgod oddi cartref ar Ebrill 28ain gyda gêm olaf y tymor yn erbyn Felinfoel gartref.

Sicrhaodd ein hieuenctid fuddugoliaeth oddi cartref o 3 - 54 yn erbyn Penybanc, er iddynt lithro wedyn yn erbyn Llandeilo gan golli 24 - 19. Cafodd y seintiau ifanc gyfle i wneud yn iawn am hynny wrth iddynt deithio i Landeilo am yr eildro mewn wythnos ar Ebrill 4ydd i chwarae yn rownd gyn derfynol Cwpan Sir Gâr a chyflawni canlyniad trawiadol o 24 – 37. Maen nhw nawr i wynebu Castell Newydd Emlyn yn y rownd derfynol (dyddiad a lleoliad i'w gadarnhau), yn dilyn eu buddugoliaeth o un pwynt yn erbyn Aman Utd. Mae'r Seintiau hefyd yn wynebu Castell Newydd Emlyn ar nos Wener, Ebrill 10fed yn rownd gynderfynol y Plât Cenedlaethol sy'n cael ei chwarae yn Nantgaredig. Pob lwc yn y gemau cwpan hyn a hefyd yn y gemau cynghrair sy'n weddill - Penybanc gartref ac Aman Utd oddi cartref gyda phopeth i chwarae amdano yn yr wythnosau nesaf.

**Gwyndaf Williams**



**Llun Chris Rees**

## Clwb Rygbi Hendy Gwyn

**Dynion**

Mawrth 7fed - Cael crasfa 101 - 12 bant yn erbyn Athletic Caerfyrddin.

21ain - Colli'n drwm eto 76 - 15 bant erbyn Aberaeron. Dim ond dwy gêm sydd ar ôl bellach, yn erbyn Nantgaredig ar Ebrill 18fed a gartref yn erbyn Aberaeron ar Mai 2il. Gobeithio gallwn ennill er mwyn aros lan yn Adran 2.

**Menywod**

Mae'r menywod yn cael trafferth rhoi tîm at ei gilydd, ond wedi chwarae 1 gêm dros yr wythnosau diwethaf, gan golli 41 - 12 bant yn erbyn Hwlffordd.

**Merched dan 12, 14 ac 16**

Mae'r timau merched o dan 12, 14 ac 16 dal yn ddi-guro - bydd y tîm dan 16 yn rownd derfynol y Plat yn Aberystwyth ar Ebrill 12fed a'r tîm dan 14 yn rownd derfynol y Cwpan ym Mharc y Sgarlets ar ddechrau mis Mai. Buodd y tîmau o dan 12, dan 14 a dan 16 ar daith i'r gogledd ddiwedd mis Mawrth lle enillodd y tîmau o dan 12 a dan 14 mewn gŵyl rygbi yn erbyn timoedd o Loegr, Iwerddon a Cymru.

**Merched dan 8 a 10**

Mae'r merched o dan 8 a o dan 10 nawr wedi dechrau ac mae ganddyn nhw gemau i ddod yn ystod y mis nesaf.









**Tîmau Iau**

"Rydyn ni'n falch i weld bod y tywydd wedi gwella fel y gall ein timoedd iau ymarfer y tu allan o hyn ymlaen.

Ar Ddydd Sul, Mawrth 22ain roedd gwledd o rygbi ym Mharc Dr Owen gyda timoedd o Abergwaun a Doc Penfro yn ymweld â'n timoedd ni. Gwnaeth pob tîm chwarae'n anhygoel gyda llawer o gydweithio a datblygu sgiliau.

Dim ond ychydig o gemau i fynd o'r tymor yma. Rydym ni'n edrych ymlaen at ddathlu gyda'r timoedd yn ein Prynhawn Gwobrau ym mis Mai. Os ydych chi'n adnabod plentyn bl2 i bl5 sydd eisiau chwarae rygbi, yna dewch i sesiwn hyfforddi ar nos Wener rhwng 6 a 7 yn Hendy-gwyn".

**Suzanne Davies**



**Un o dîmau iau y clwb**



**Tîm dan 14**

## Clwb Pêl-droed Llanboidy

**Tymor 2025-26**

Mae tymor Clwb Pêl-droed Llanboidy yn dod i ben yn araf bach, er bod ambell gêm ar ôl dros y mis nesaf. Mae'r adran iau hefyd yn parhau, ac yn aml yn chwarae ar foreau dydd Sadwrn.

**Tîm 1af**

Mae'r tîm cyntaf yn eistedd yn yr 8fed safle yn Adran 1 Ceredigion, a hynny yn dilyn 18 o gemau. Dros y mis diwethaf, mae pump o gemau wedi'u chwarae, ennill 2, 1 gyfartal a cholli 2.

*Mae'r canlyniadau isod:*

Mawrth 7fed: Pencader 1-2 Llanboidy (Geth Scourfield x2)

14eg Llanboidy 2-2 Aberteifi (Geth Scourfield x2)

21ain: Ser Dewi 3-4 Llanboidy (Ethan Ryan x2, Lee Strudley x2)

28ain : Crymych 5-1 Llanboidy (Frazer Wyatt)

Ebrill 4ydd : Llanboidy 0-7 Felinfach

**2il Dîm**

Mae'r ail dîm sy'n chwarae yn Adran 3 Ceredigion yn nhymor 2025-26 yn eistedd yn y 6ed safle, a hynny gan chwarae 11 o gemau. Dros y mis diwethaf, tair gêm sydd wedi bod, ennill 2 a cholli 1.

*Mae'r canlyniadau dros y mis diwethaf isod:*

Mawrth 7fed : Llanboidy 0-5 Felinfach

28ain : Llanboidy 4-1 Crymych (Chris Bowen x2, Ben Harvey, Charlie Jones)

Ebrill 4ydd : Crymych 0-1 Llanboidy (Chris Bowen)

Mae ymarferion y timoedd 1af a'r ail ymlaen bob nos Fawrth ar Gae Dandre, Llanboidy rhwng 18.00-19.30yh. Croeso cynnes i bawb.

**Adran Iau**

Mae'r timoedd adran Iau yn parhau i chwarae, a hynny fel arfer ar foreau Sadwrn. Mae gan y Clwb dimau dan 6, dan 8, dan 10, dan 12 a dan 14. Diolch yn fawr iawn i'r holl hyfforddwyr sydd wedi bodloni cynorthwyo'r amryw o dimoedd hyd yma eleni. Rydym o hyd yn chwilio am chwaraewyr newydd. Croeso cynnes i bawb!

Diolch yn fawr iawn i'n holl noddwyr - rydym wir yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth barhaus i'r Clwb. Gan ei bod yn dymor newydd, rydym o hyd yn chwilio am noddwyr newydd, felly os oes diddordeb gyda chi, cysylltwch. Am fwy o wybodaeth, dilynwch neu gysylltwch gyda ni ar ein cyfryngau cymdeithasol.



**Tîm dan 6**



**Tîm dan 8**

## Dartiau Llanboidy

Ar Fawrth 13eg roedd Llanboidy SSC yn Springwell. Roedd Rob Stone yn Cheltenham yn colli ar y ceffylau, ac nid ydym wedi gweld Dex ers mis Medi o hyd. Roedd Capten Steve yn hapus iawn gyda'r tîm er iddyn nhw golli 4–3, ond clod arbennig i Alun am daro 180.

---

**Jones Login**
Teithiau o Safon
*Quality Coach Travel*

**Login**
**Hendygwyn**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA34 0UX**
**Ffôn: 01437 563277**
**www.joneslogin.co.uk**






| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Mai 2026** | | |
| Llun 11 | **Canolbarth Cudd Iwerddon** | *6 |
| **Mehefin 2026** | | |
| Llun 1 | **Fforiwr Arfordir y De** | *5 |
| Sad 6 | *Sioe Gerdd - Miss Saigon, Caerdydd* | 1 |
| Sul 7 | **Te Prynhawn yng Nghaerfaddon** | 3 |
| Llun 8 | **Gwesty Warner - Neuadd Thorseby** | *5 |
| Sad 13 | Rheilffordd Mynydd Aberhonddu | 1 |
| Maw 16 | ● *Take That, Caerdydd (Bws yn unig, dim tocyn)* | 1 |
| Mer 17 | **Diwrnod y Merched - Royal Ascot** | 3 |
| Sad 20 | *Sioe Gerdd - Legally Blonde, Caerdydd* | 1 |
| **Mehefin 2026** | | |
| Llun 22 | **Ynys Mannaw** | *6 |
| Sad 27 | *Drama - Fawlty Towers, Caerdydd* | 1 |
| **Gorffennaf 2026** | | |
| Sad 4 | **Yr Alban - Highland Fling** | 7 |
| Sad 11 | ● *Sioe Gerdd - Annie, Caerdydd* | 1 |
| Maw 21 & Mer 22 | Sioe Frenhinol Cymru | 1 |
| Llun 27 | **Llandudno** | *5 |

| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Awst 2026** | | |
| Llun 3, Mer 5 a Gwe 7 | Eisteddfod ardal 'Y Garreg Las' | 1 |
| **Medi 2026** | | |
| Llun 7 | **Caerwynt a'r Goedwig Newydd** | *5 |
| Sad 12 | **Sioe Gerdd Paddington** | 2 |
| Llun 14 | ● **Gwesty Warner - Castell Studley** | *5 |
| Llun 21 | **Eastbourne** | *5 |
| **Hydref 2026** | | |
| Iau 1 | **Swindon ac Ysbryd Arloesol y Cotswolds** | *5 |
| Gwe 9 | **Gwesty Warner - Tŷ Littlecote** | *4 |
| Sad 17 | ● **ABBA Voyage** (dim ond 4 sedd ar ôl) | 2 |
| Sul 18 | ● *Kevin Bridges, Caerdydd* | 1 |
| Sad 24 | ● *Sioe Dirty Dancing, Caerdydd* | 1 |
| Llun 26 | **Ynys Wyth** | *5 |
| **Tachwedd 2026** | | |
| Gwe 6 | **Twrci a Tinsel, Torquay** | *4 |
| Llun 23 | ● **Gwesty Warner - Runnymede on Thames** | *5 |
| Sad 28 | **Gwyl Olau 'Glow' RHS Wisley** | 2 |
| Llun 30 | Nadolig Swydd Efrog | *5 |
| **rhagfyr 2026** | | |
| Sad 5 | Caerfaddon - Marchnad Nadolig | 1 |
| Sad 5 | *Sioe Gerdd Mamma Mia, Caerdydd* | 1 |
| Sad 12 | *Sioe Gerdd Matilda, Caerdydd* | 1 |

***Gwasanaeth Drws i ddrws ar y teithiau yma / ● = Teithiau newydd sydd ddim yn llyfryn 2026**

**Gallwch archebu ar lein, dros y ffôn, neu mewn person yn ein swyddfa**


KATHY'S
TRIN GWALLT




2 Parc y Deri
Heol yr Orsaf, Clunderwen
07493 427465

Rosemarie Davies
Cyfrifydd Technegol
GWASANAETH CADW CYFRIFON
Fferm Blaenwaun, Hebron
Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799
*Yn drwyddedig gan Association of Accounting Technicians*

Brian John
ROSE GARAGE





Cwmfelin Mynach
Hen Dŷ Gwyn ar Daf
Ffôn / Ffacs: 01994 448426
* Gwaith weldio o safon uchel
** Gwasanaeth ac atgyweirio ar bob math o gerbyd

ARWYDDION A DYLUNIO
BOOMERANG
SIGN & DESIGN
01239 832 014
sales@boomerang-signs.co.uk
UNED 11A, PARC GWYNFRYN,
CRYMYCH, SIR BENFRO

Phil a Siôn Harries
SEIRI COED
Efail Fach
Henllan Amgoed





Ffôn:
01994 240857

Gwasanaeth Trydanol RMD Cyf
Robert W. R. Morgan
ECA CYMERADWYEDIG GAN NICEIC
17 Trevaughan Lodge
Hendygwyn ar Daf
SA34 0QF
Ffôn: 01994 240946 - Symudol: 07966 019281
e-bost: robrmd28@gmail.com